Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Rheoliadau Academaidd

2025/26

**Cynnwys**

Rheoliadau Academaidd Cyffredinol ..... 4
A. Cyd-destun ..... 4
B. Mynediad, Ymrestru a Chofrestru Myfyrwyr ..... 8
C. Cefnogi eich dysgu ..... 11
D. Ymddygiad Myfyrwyr ..... 13
E. Asesiad ..... 14
F. Byrddau Asesu ..... 20
G. Afreoleidd-dra Gweithdrefnol ..... 21
H. Dyfarniadau ..... 22
I. Apeliadau Academaidd ..... 24
J. Cwynion ..... 24
Rheoliadau ar gyfer Blynyddoedd Sylfaen Israddedig ..... 25
UFY-A: Cyflwyniad ..... 25
UFY-B: Mynediad ..... 25
UFY-C: Asesu a Dyfarnu Credyd ..... 25
UFY-D: Methu'r Modiwl ..... 25
Rheoliadau ar gyder Graddau Israddedig a Graddau Sylfaen ..... 28
UG-A: Cyflwyniad ..... 28
UG-B: Derbyn, Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol a Chydnabyddiaeth o Ddysgu o Brofiad Blaenorol ..... 29
UG-C: Strwythur y Rhaglen ..... 29
UG-D: Asesu a Dyfarnu Credyd ..... 30
UG-E: Methu Modiwl ..... 31
UG-F: Symud ymlaen i'r Lefel Nesaf o Astudiaeth ..... 34
UG-G: Dyfarniadau ..... 35
Rheoliadau ar gyfer Dyfarniadau Ôl-raddedig a Addysgir (Meistr, Meistr Ymchwil, Diploma Ôl- raddedig, Tystysgrif Ôl-raddedig) ..... 39
TPG-A: Cyflwyniad ..... 39
TPG-B: Mynediad, Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol a Chydnabyddiaeth o Ddysgu drwy Brofiad Blaenorol ..... 39
TPG-C: Strwythur y Rhaglen ..... 40

TPG-D: Asesu a Dyfarnu Credyd ........ 41
TPG-E: Methu Modiwl........ 41
TPG-F: Dyfarnu Tystysgrif Ôl-raddedig ........ 42
TPG-G: Dyfarniad Diploma Ôl-raddedig........ 43
TPG-H: Dyfarniad Gradd Meistr (gweler Rheoliad TPG-K am Ddyfarniad Meistr Ymchwil)........ 44
TPG-I: Dyfarnu Gradd Meistr gydag Ymarfer Uwch........ 46
TPG-J: Dyfarniadau Ymadael o Raglen Gradd Meistr........ 47
TPG-K: Dyfarniad Meistr Ymchwil ........ 47
TPG-L: Dyfarniad Ymadael o Raglen Meistr Ymchwil ........ 48
Rheoliadau ar gyfer y Dystysgrif Addysg Barhaus, Tystysgrif Broffesiynol a Thystysgrif Presenoldeb ........ 49
Cert-A: Cyflwyniad........ 49
Cert-B: Mynediad ........ 49
Cert-C: Strwythur y Rhaglen ........ 49
Cert-D: Asesu a Dyfarnu Credyd........ 49
Cert-E: Methu Modiwl (Tystysgrif Addysg Barhaus a Thystysgrif Broffesiynol) ........ 50
Cert-F: Gwobr (Tystysgrif Addysg Barhaus a Thystysgrif Broffesiynol)........ 51
Rheoliadau ar gyfer Diplomâu Graddedig a Thystysgrifau Graddedig........ 52
GDC-A: Cyflwyniad ........ 52
GDC-B: Derbyn, Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol a Chydnabyddiaeth o Ddysgu drwy Brofiad Blaenorol........ 52
GDC-C: Strwythur y Rhaglen ........ 53
GDC-D: Asesu a Dyfarnu Credyd ........ 53
GDC-E: Methu Modiwl ........ 53
GDC-F: Dyfarniad ........ 55
Rheoliadau ar gyfer Graddau Meistr Integredig ........ 56
IMD-A: Cyflwyniad ........ 56
IMD-B: Derbyn, Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol a Chydnabyddiaeth o Ddysgu drwy Brofiad Blaenorol........ 56
IMD-C: Strwythur Rhaglen ........ 57
IMD-D: Asesiad a Dyfarnu Credyd ........ 57
IMD-E: Methu Modiwl........ 57

IMD-F: Symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf ........ 60
IMD-G: Dyfarniad Gradd Meistr Integredig ........ 60
Rheoliadau ar gyfer dyfarniadau Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET) ........ 63
PCET-A: Cyflwyniad ........ 63
PCET-B: Myfyrwyr sy'n Derbyn Cydnabyddiaeth am Ddysgu Blaenorol a Dysgu Drwy Brofiad Blaenorol ........ 63
PCET-C: Strwythur y Rhaglen ........ 64
PCET-D: Asesu a Dyfarnu Credyd ........ 64
PCET-E: Methu Modiwl ........ 64
PCET-E: Dyfarniad Tystysgrif Addysg - Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol (PCET) ........ 66
PCET-G: Dyfarnu Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig - Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol (PCET) ........ 66
PCET-H: Dyfarnu Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion - Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol (PCET) ........ 66
Hygyrchedd ........ 67

## Rheoliadau Academaidd Cyffredinol

### A. Cyd-destun

#### 1 Pwrpas y Rheoliadau Academaidd

1.1 Y Rheoliadau Academaidd (y Rheoliadau) yw'r fframwaith rheolau ar gyfer darpariaeth academaidd sy'n arwain at gredyd neu ddyfarniadau a wnaed yn enw Prifysgol Wrecsam (y Brifysgol).

1.2 Mae Bwrdd Academaidd y Brifysgol yn gyfrifol am oruchwylio'r Rheoliadau hyn.

1.3 Mae dwy ran i'r Rheoliadau Academaidd:

- Rheoliadau Cyffredinol sy'n darparu gwybodaeth i bob myfyriwr.
- Rheoliadau sy'n darparu gwybodaeth am y dyfarniad penodol yr ydych yn astudio ar ei gyfer.

1.4 Mae'r Rheoliadau wedi'u cynllunio i sicrhau tegwch a chysondeb yn y ffordd y gwneir penderfyniadau ynghylch eich cynnydd academaidd a'ch dyfarniad.

1.5 Mae'r Rheoliadau yn cynnal safonau academaidd dyfarniadau'r Brifysgol ac:

- Yn cyd-fynd â Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru.
- Yn cyflawni cyfrifoldebau'r Brifysgol i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd sy'n goruchwylio ansawdd a safonau Addysg Uwch yng Nghymru, gan gynnwys Datganiadau o Nodweddion sy'n benodol i gymwysterau.
- Yn diogelu safonau academaidd eich dyfarniad.

1.6 Wrth gynnal safonau academaidd dyfarniadau'r Brifysgol, mae'r Rheoliadau hyn yn gweithio ar y cyd â:

- Polisïau a Gweithdrefnau'r Brifysgol a gyhoeddwyd ar y Fewnrwyd i Fyfyrwyr.
- Y Rheoliadau sy'n benodol i'ch dyfarniad.
- Y Fanyleb Rhaglen swyddogol a ddarperir i chi fel rhan o'ch Llawlyfr Rhaglen, ac sy'n nodi cynnwys a dull cyflwyno eich rhaglen fel y'u cymeradwywyd gan y Brifysgol.

1.7 Mae gan lawer o raglenni'r Brifysgol achrediad Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio (PSRB). Mae hyn yn golygu bod rhaglen wedi'i dylunio i fodloni gofynion proffesiynol a nodir gan y corff priodol, yn ogystal â gofynion academaidd y Brifysgol. Weithiau gall ymgorffori'r gofynion proffesiynol hyn yn nyluniad y rhaglen olygu bod angen i reoliadau penodol fod yn wahanol i'r rhai a nodir yn y Rheoliadau Cyffredinol hyn a/neu yn y Rheoliadau sy'n benodol i'ch dyfarniad (y cyfeirir atynt yn aml fel rhanddirymiadau). Bydd gwybodaeth am unrhyw wahaniaethau sy'n berthnasol i'ch rhaglen yn cael ei chyhoeddi yn y Fanyleb Rhaglen.

## 2 Deddf Cydraddoldeb 2010

2.1 Mae'r Rheoliadau hyn a'r Rheoliadau sy'n benodol i'ch dyfarniad yn gweithredu yn unol â chyfrifoldeb y Brifysgol i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

2.2 Bydd y Rheoliadau a'r Rheoliadau sy'n benodol i'ch dyfarniad ar gael mewn fformatau hygyrch.

## 3 Amrywiadau i, neu atal y rheoliadau

3.1 Gellir amrywio neu atal y rheoliadau os yw, neu os bydd, y broses asesu yn cael ei pheryglu oherwydd amgylchiadau brys, lleol, cenedlaethol neu fyd-eang.

3.2 Bydd unrhyw amrywiad i'r Rheoliadau yn cael ei ystyried yn ofalus i sicrhau tegwch i bob myfyriwr ac i gynnal safonau academaidd.

3.3 Mae'r Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am gymeradwyo unrhyw amrywiadau neu ataliad a byddwch yn cael gwybod yn ysgrifenedig (yn electronig) am unrhyw newidiadau.

## 4 Iaith Cyflawni ac Asesu

4.1 Cyhoeddir polisi Iaith Gymraeg y Brifysgol ar wefan y Brifysgol.

4.2 Gallwch ddewis cyflwyno eich asesiad yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd rhagor o wybodaeth am y broses hon yn cael ei chyhoeddi yn eich Llawlyfr Rhaglen.

4.3 Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith fel y gellir asesu gwaith academaidd yn yr iaith wreiddiol lle bynnag y bo modd. Bydd trefniadau eithriadol ar waith ar gyfer staff ac Arholwyr Allanol a allai fod angen i asesiadau gael eu cyfieithu i'r Gymraeg neu'r Saesneg. Os oes angen cyfieithu eich gwaith, caniateir i chi wneud sylwadau ar gywirdeb y cyfieithiad cyn iddo gael ei asesu'n ffurfiol.

4.4 Gall rhaglenni a ddarperir gan sefydliadau partner mewn gwledydd y tu allan i'r DU ddarparu ar gyfer a/neu asesu myfyrwyr mewn iaith heblaw Saesneg os yw trefniadau wedi'u cymeradwyo yn y broses ddilysu fel rhai sy'n gydnaws â gofynion y DU.

## 5 Cyfrifoldebau Myfyrwyr

5.1 Dylech sicrhau eich bod yn gyfarwydd â'r Rheoliadau hyn, y Rheoliadau sy'n benodol i'ch dyfarniad, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer myfyrwyr, a chyda'r wybodaeth fanylach am eich astudiaethau a ddarperir yn eich Manyleb Rhaglen a'ch Llawlyfr Rhaglen.

5.2 Dylech ofyn am gyngor gan eich tiwtor personol, y tîm rhaglen neu Undeb y Myfyrwyr os nad ydych yn glir am unrhyw Reoliad/au, polisïau, gweithdrefnau, neu unrhyw wybodaeth arall am y rhaglen a ddarperir ar eich cyfer.

## 6 Adolygu'r Rheoliadau hyn

6.1 Mae'r Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am adolygu'r Rheoliadau hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas. Gall adolygiad o'r fath gael ei lywio gan faterion a godir gan fyfyrwyr, staff, Arholwyr Allanol, cyrff sector neu unigolion perthnasol eraill.

6.2 Bydd myfyrwyr yn cymryd rhan mewn unrhyw adolygiad o'r Rheoliadau hyn drwy gynrychiolaeth ar y Bwrdd Academaidd a/neu gynrychiolaeth ar unrhyw bwyllgorau, is-bwyllgorau neu weithgorau a sefydlwyd i gynnal adolygiad.

6.3 Bydd unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau hyn fel arfer yn dod i rym o ddechrau'r flwyddyn academaidd ganlynol. Dim ond yn eithriadol, gan gynnwys mewn amgylchiadau brys (gweler Rheoliad A3.1) y bydd newidiadau yn dod i rym yn ystod y flwyddyn.

6.4 Fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig (yn electronig) am unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau.

## 7 Rhaglenni a dyfarniadau

7.1 Mae'r holl raglenni a modiwlau yn cael eu neilltuo i lefel o fewn Fframweithiau yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau yn y DU. Mae'r dyfarniadau a wnaed gan y Brifysgol fel a ganlyn:

| Teitl y dyfarniad | Lefel y dyfarniad | Gwerth credyd | Gofynion |
|---|---|---|---|
| Tystysgrif Addysg Uwch | 4 | 120 | 120 credyd ar lefel 4 |
| Tystysgrif Addysg | 4/5 | 120 | 60 credyd ar Lefel 4 a 60 credyd ar Lefel 5 |
| Tystysgrif Genedlaethol Uwch | 4/5 | 120-150 | Isafswm o 120 o gredydau Lefel 4 / uchafswm o 150 o gredydau sy'n cynnwys 120 o gredydau ar Lefel 4 a 30 o gredydau ar Lefel 5 |
| Tystysgrif Genedlaethol Uwch | 4/5 | 240 | 120 credyd ar Lefel 4 a 120 credyd ar Lefel 5 |
| Diploma Addysg Uwch | 5 | 240 | O leiaf 120 credyd ar lefel 5 |
| Gradd Sylfaen | 5 | 240 | O leiaf 120 credyd ar lefel 5 |
| Gradd Baglor (cyffredin) | 5 | 300 | O leiaf 60 credyd ar lefel 6 |
| Tystysgrif i Raddedigion | 6 | 60 | 60 credyd ar lefel 6 |
| Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion | 6 | 120 | 120 credyd ar lefel 6 |
| Diploma i Raddedigion | 6 | 120 | 120 credyd ar lefel 6 |
| Gradd Baglor (Anrhydedd) | 6 | 360 | O leiaf 120 credyd ar lefel 6 |
| Gradd Baglor (Anrhydedd) gyda Blwyddyn Lleoliad Diwydiannol | 5/6 | 480 | Isafswm o 240 credyd ar lefel 5 a lleiafswm o 120 credyd ar lefel 6 |
| Gradd Baglor (Anrhydedd) | 6 | 480 | O leiaf 120 credyd ar lefel 6 |

| Teitl y dyfarniad | Lefel y dyfarniad | Gwerth credyd | Gofynion |
|---|---|---|---|
| gyda Blwyddyn Sylfaen | | | |
| Gradd Meistr Integredig (Anrhydedd) | 7 | 480 | O leiaf 120 credyd ar lefel 6 a 120 credyd ar lefel 7 |
| Tystysgrif Ôl-raddedig | 7 | 60 | 60 credyd ar lefel 7 |
| Tystysgrif Addysg i Raddedigion | 6/7 | 120 | 60 Credyd lefel 6 a 60 credyd lefel 7 |
| Diploma Ôl-raddedig | 7 | 120 | 120 credyd ar lefel 7 |
| Diploma ôl-raddedig mewn Nyrsio Cyn-Gofrestru | 6 & 7 | 180 | 60 credyd ar lefel 6 a 120 credyd ar lefel 7 |
| Gradd Meistr | 7 | 180 | 180 credyd ar lefel 7 |
| Gradd Meistr gydag Ymarfer Uwch | 7 | 240 | 240credyd ar lefel 7 |

7.2 Efallai y bydd rhanddirymiadau i'r Dyfarniad Lefel uchod yn dibynnu ar ofynion y Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol. Os felly, nodir y gwyriad yn y Fanyleb Rhaglen berthnasol.

7.3 Mae'r Brifysgol yn cynnig ystod amrywiol o opsiynau astudio i fyfyrwyr, gan gynnwys rhaglenni cartref a ddarperir ar y campws, rhaglenni ar-lein, pwyntiau mynediad hyblyg a rhaglenni a ddarperir gan sefydliadau partner. Gellir dod o hyd i wybodaeth benodol am y modd y darperir eich rhaglen ar fanyleb eich rhaglen.

7.4 Mae'r Brifysgol yn gweithredu fframwaith credyd ar gyfer yr holl raglenni a addysgir yn seiliedig ar:

- Tariff 20 credyd ar gyfer rhaglenni cartref.
- Modiwlau atodol 30 credyd ar raglenni Meistr Ôl-raddedig a Addysgir.
- Tariff 15 credyd ar gyfer rhaglenni ar-lein Wrecsam.

7.5 Gall tariffau credyd ar gyfer rhaglenni a ddarperir gyda sefydliadau partner fod yn wahanol i'r uchod a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ym manyleb eich rhaglen.

7.6 Mae un credyd yn cyfateb i ddeg awr o ddysgu tybiannol, mae hyn yn cynnwys dysgu gweithredol ac oriau addysgu ac oriau dysgu annibynnol. Gall y modiwlau fod werth 20/15 credyd neu luosrifau o hynny.

## 8 Modiwlau

8.1 Mae modiwlau sy'n rhan o'ch rhaglen yn cael eu categoreiddio fel rhai craidd neu ddewisol:

- **Mae modiwlau craidd** yn fodiwlau y mae'n rhaid i chi eu hastudio. Gellir digolledu (gweler Rheoliad E10) methiant modiwl craidd, oni bai bod Corff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol (PSRB) wedi gosod cyfyngiadau ar ddigolledu.

- **Modiwlau dewisol** yw'r modiwlau rydych yn dewis eu hastudio. Gellir digolledu (gweler Rheoliad E10) methiant modiwl craidd, oni bai bod Corff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol (PSRB) wedi gosod cyfyngiadau ar ddigolledu.

## B. Mynediad, Ymrestru a Chofrestru Myfyrwyr

### 1 Derbyn

1.1 Mae Polisi Mynediad y Brifysgol yn nodi ymagwedd y Brifysgol tuag at fynediad , gan gynnwys sut y gallwch apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch mynediad a sut y gallwch wneud cwyn.

1.2 Mae gwefan y Brifysgol yn nodi'r gofynion mynediad cymeradwy ar gyfer pob rhaglen, gan gynnwys isafswm cymwysterau a gofynion Iaith Saesneg.

1.3 Os dymunwch gofrestru ar gyfer dwy raglen yn yr un flwyddyn academaidd (rhan amser neu amser llawn), dylid caniatáu i chi wneud hynny ar eich menter eich hun. Ni fydd myfyrwyr yn y sefyllfa hon wedyn yn cael cyflwyno amgylchiadau esgusodol o ganlyniad uniongyrchol i'r penderfyniad hwn.

### 2 Cydnabod Dysgu Blaenorol a Chydnabod Dysgu Drwy Brofiad Blaenorol

2.1 Lle gallwch ddangos bod eich profiad blaenorol neu astudiaeth flaenorol yn bodloni rhai o ganlyniadau dysgu'r rhaglen rydych yn bwriadu eu hastudio, efallai y byddwn yn eich eithrio o rai rhannau o'ch rhaglen arfaethedig.

2.2 Bydd ceisiadau am gydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol yn cael eu hasesu yn unigol. Cyhoeddir rhagor o wybodaeth ym Mholisi'r Brifysgol ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol.

2.3 Ni fyddwn fel arfer yn eich eithrio o fwy na dwy ran o dair o'r rhaglen rydych yn bwriadu ei hastudio, a bydd y Fanyleb Rhaglen yn nodi'r lefel uchaf a ganiateir ar gyfer eich rhaglen.

2.4 Dim ond y marciau rydych chi'n eu cyflawni wrth astudio gyda ni fydd yn cyfrif tuag at ddosbarthiad eich dyfarniad.

### 3 Ymrestru

3.1 I gael mynediad i raglen, bydd angen i chi:

- Ymrestru gyda'r Brifysgol ar gyfer y rhaglen y cawsoch eich derbyn ar ei chyfer. Disgwylir i bob myfyriwr newydd gwblhau ymrestriad o fewn pythefnos i ddechrau eu hamserlen addysgu. Bydd unrhyw fyfyriwr newydd nad yw wedi ymrestru o fewn pythefnos i'r dyddiad hwn yn cael ei dynnu'n ôl o'i astudiaethau.
- Ail-ymrestru pan fyddwch yn dechrau ar lefel ddilynol o astudiaeth. Disgwylir i bob myfyriwr sy'n dychwelyd gwblhau ail-ymrestriad o fewn pedair wythnos i ddechrau eu hamserlen addysgu. Bydd unrhyw fyfyrwyr nad ydynt wedi ymrestru o fewn pedair

wythnos i'r dyddiad hwn yn cael eu tynnu'n ôl o'u hastudiaethau.

Mae rhagor o wybodaeth am y pwyntiau hyn ar gael yn y Polisi Mynediad.

3.2 Ar ôl cofrestru ar raglen, gallwch ddewis:

- Atal eich cofrestriad fel y nodir yn Rheoliad C4.
- Gadael eich rhaglen a thynnu eich cofrestriad yn ôl (gweler Rheoliad C6). Os byddwch yn tynnu'n ôl yn wirfoddol, ni fydd hyn yn cael ei gofnodi fel methiant ar eich trawsgrifiad.

3.3 Gall y Brifysgol atal eich cofrestriad oherwydd:

- Ystyrir eich bod yn anaddas i astudio yn unol â'r Polisi Addasrwydd i Astudio.
- Camau rhagofalus y gallai fod angen i'r Brifysgol eu cymryd os yw'n ymchwilio i gamymddwyn honedig ar eich rhan yn unol â'r Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr neu'r Polisi Camymddwyn a Thrais Rhywiol.
- Camau rhagofalus y gallai fod angen i'r Brifysgol eu cymryd os yw'n ymchwilio i'ch addasrwydd ar gyfer ymarfer.

3.4 Gall y Brifysgol derfynu eich cofrestriad oherwydd:

- Eich diffyg ymgysylltiad â'ch astudiaethau yn unol â Pholisi Ymgysylltu Academaidd Myfyrwyr.
- Nad ydych yn bodloni gofynion ymgysylltu ychwanegol a nodir yn eich Llawlyfr Rhaglen, megis gofynion y corff proffesiynol.
- Nad ydych yn bodloni gofynion ymgysylltu eich fisa astudio (gweler Rheoliad C1.2).
- Nad ydych wedi talu'r ffioedd sy'n ddyledus i'r Brifysgol yn unol â Thelerau ac Amodau ar adeg ymrestru.
- Eich bod wedi methu modiwl a phob ymgais i ailsefyll (gweler y Rheoliadau sy'n benodol i'ch dyfarniad).
- Camymddwyn ar eich rhan, lle mae achos disgyblu yn eich erbyn yn cael ei gynnal yn unol â'r Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr neu'r Polisi Camymddwyn a Thrais Rhywiol.
- Camymddwyn academaidd ar eich rhan lle mae achos yn eich erbyn yn cael ei gadarnhau yn unol â'r Weithdrefn Uniondeb Academaidd.
- Ystyrir eich bod yn anaddas i astudio yn unol â'r Polisi Addasrwydd i Astudio.
- Ystyrir eich bod yn anaddas i ymarfer yn unol â'r Polisi Addasrwydd ar gyfer Ymarfer.
- Bod Bwrdd Asesu yn tynnu myfyriwr yn ôl oherwydd methiant academaidd.

## 4 Y Cyfnodau Astudio Disgwyliedig a Phenodol

4.1 Mae gan y Brifysgol gyfnod astudio disgwyliedig y mae'n ofynnol i chi ei gwblhau er mwyn sicrhau bod y cynnwys a'r deilliannau dysgu angenrheidiol wedi'u diwallu. Mae gennym hefyd gyfnod cofrestru penodol i sicrhau bod eich dysgu'n parhau'n gyfredol ar yr adeg y byddwch yn derbyn eich dyfarniad. Mae'r cyfnodau fel a ganlyn:

| Teitl y wobr | Hyd penodol y cyfnod cofrestr |
|---|---|
| Gradd Sylfaen (Llawn Amser) | 4 blynedd |
| Tystysgrif / Diploma Cenedlaethol Uwch | 5 mlynedd |
| Tystysgrif Addysg (Rhan amser) | 2 flynedd |
| Tystysgrif i Raddedigion (Llawn Amser) | 2 flynedd |
| Tystysgrif i Raddedigion (Rhan-amser) | 4 blynedd |
| Diploma i Raddedigion (Llawn Amser) | 2 flynedd |
| Diploma Graddedig (Rhan-amser) | 4 blynedd |
| Diploma Addysg Uwch (Amser llawn) | 4 blynedd |
| Diploma Addysg Uwch (Rhan-amser) | 6 blynedd |
| Gradd Baglor (Anrhydedd) (Llawn-amser) | 5 mlynedd |
| Gradd Baglor (Anrhydedd) (Rhan-amser) | 7 mlynedd |
| Gradd Baglor (Anrhydedd) (Amser Llawn) Ategol | 2 flynedd |
| Gradd Baglor (Anrhydedd) (Rhan-amser) Ategol | 4 blynedd |
| Gradd Baglor (Anrhydedd) gyda Blwyddyn Lleoliad mewn Diwydiant (Llawn Amser) | 6 blynedd |
| Gradd Baglor (Anrhydedd) gyda Blwyddyn Lleoliad mewn Diwydiant (Rhan-amser) | 8 mlynedd |
| Prentisiaeth Gradd (3 blynedd Rhan amser) | 5 mlynedd |
| Gradd Meistr Integredig (Llawn Amser) | 6 blynedd |
| Gradd Meistr Integredig (Rhan-amser) | 8 mlynedd |
| Tystysgrif Ôl-raddedig (Llawn Amser) | 18 mis |
| Tystysgrif Ôl-raddedig (Rhan-amser) | 24 mis |
| Diploma Ôl-raddedig (Llawn Amser) | 24 mis |
| Diploma Ôl-raddedig (Rhan-amser) | 48 mis |
| Tystysgrif Addysg i Raddedigion (Amser llawn) | 24 mis |
| Tystysgrif Addysg i Raddedigion (Rhan amser) | 48 mis |
| Gradd Meistr (llawn amser) | 24 mis |
| Gradd Meistr (Rhan-amser) | 60 mis |
| Gradd Meistr mewn Ymarfer Uwch (Llawn Amser) | 24 mis |

4.2 Gellir dod o hyd i'r cyfnod cofrestru disgwyliedig ar gyfer eich rhaglen ym manyleb y rhaglen.

4.3 Efallai y bydd eithriadau i'r cyfnodau cofrestru a nodir yn y tabl uchod, gall hyn fod oherwydd gofynion y Corff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol, er enghraifft. Gellir dod o hyd i unrhyw eithriadau sy'n benodol i'ch rhaglen ym manyleb eich rhaglen. Os oes gofyniad i fynd y tu

hwnt i'r cyfnod cofrestru uchaf, dylai myfyrwyr drafod hyn gydag arweinydd eu rhaglen yn y lle cyntaf, ymdrinnir â phob cais yn unigol.

4.4 Mae'r cyfnod cofrestru yn parhau i gyfrif yn ystod cyfnodau o atal neu absenoldeb o'r rhaglen.

## C. Cefnogi eich dysgu

### 1 Eich gofynion ymgysylltu

1.1 Mae gan y Brifysgol Bolisi Ymgysylltu Academaidd i Fyfyrwyr sy'n nodi ein disgwyliadau cyffredinol. Efallai y bydd gan eich rhaglen ofynion ychwanegol penodol o ran ymgysylltu a phresenoldeb a nodir y rhain yn eich Llawlyfr Rhaglen.

1.2 Os ydych yn astudio yn y Brifysgol ar fisa, bydd angen i chi fodloni gofynion ymgysylltu penodol i sicrhau bod eich fisa yn parhau'n ddilys. Mae'r gofynion hyn wedi'u nodi yn y Polisi Cadarnhau Derbyn ar gyfer Astudiaethau (CAS).

### 2 Gofynion Unigol

2.1 Eich cyfrifoldeb chi yw datgelu unrhyw anabledd neu anghenion cysylltiedig. Yn ddelfrydol, dylid datgelu'r rhain yn ystod y broses dderbyn neu ymrestru. Lle nad yw hyn wedi bod yn bosibl, neu lle mae angen yn datblygu tra byddwch yn astudio gyda'r Brifysgol, dylech drafod hyn gyda'r tîm Gwasanaethau Cynhwysiant.

2.2 Os ydych yn datgelu anabledd neu angen cysylltiedig, bydd y Brifysgol yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y tîm Gwasanaethau Cynhwysiant yn trafod ac yn nodi addasiadau rhesymol priodol a chyda'ch caniatâd, yn rhannu'r rhain yn ddiogel gyda staff perthnasol y Brifysgol, gan gynnwys tîm eich rhaglen. Bydd unrhyw Addasiadau Rhesymol yn sicrhau y cynhelir safonau academaidd a safonau cymhwysedd unrhyw gorff proffesiynol sy'n gysylltiedig â'ch rhaglen.

2.3 Dylid trafod addasiadau rhesymol mewn amgylcheddau lleoliad gyda darparwyr lleoliadau / cysylltiadau academaidd perthnasol.

2.4 Bydd y Brifysgol yn ystyried argaeledd dulliau neu ddwyster astudio amgen a/neu gynllun dysgu os mai dyna fyddai'n cefnogi eich amgylchiadau unigol orau. Bydd y broses hon yn cael ei chynnal gan y sefydliad partner os ydych yn astudio gydag un o bartneriaid y Brifysgol.

2.5 Os oes gennych salwch dros dro neu amgylchiadau personol heriol a'ch bod i fod i gael l asesiad rhaglen, efallai y bydd angen i chi wneud cais am Amgylchiadau Esgusodol. Darperir gwybodaeth am y broses hon yn Rheoliad E3 a'r Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol. Os oes gennych amgylchiadau heriol a fydd yn effeithio ar eich ymgysylltiad am gyfnod hirach, efallai y bydd angen i chi wneud cais am absenoldeb awdurdodedig neu atal astudiaethau (gweler Rheoliad C4).

2.6 Mae'r Brifysgol yn cydnabod gwahanol grefyddau pobl yn ein cymuned, gan gynnwys amgylchiadau sy'n ymwneud ag arsylwi crefyddol. Mae Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Brifysgol a'i Pholisi Arferion Crefyddol yn darparu gwybodaeth bellach mewn perthynas â materion myfyrwyr a staff.

**3 Addasrwydd i Astudio**

3.1 Mae gan y Brifysgol Bolisi Addasrwydd i Astudio y byddwn yn ei ddefnyddio os bydd eich lleisiant s a/neu ymddygiad cysylltiedig yn codi pryderon am eich gallu i astudio'n dda.

**4 Dewis atal eich astudiaethau**

4.1 Mae gan y Brifysgol Bolisi Atal Astudiaethau sy'n nodi'r amgylchiadau lle gallwch benderfynu atal eich astudiaethau am gyfnod penodol o amser.

4.2 Os ydych chi'n astudio yn y Brifysgol ar fisa, mae'r Polisi Atal Astudiaethau yn nodi amgylchiadau ychwanegol y bydd angen rhoi sylw iddynt wrth ystyried atal astudiaethaus.

**5 Dewis trosglwyddo i raglen arall yn y Brifysgol neu gyda darparwr partner**

5.1 Os ydych yn dymuno trosglwyddo i raglen arall o fewn y Brifysgol, dylech drafod y mater yn gyntaf gyda'ch Arweinydd Rhaglen neu Diwtor Personol i benderfynu ai dyma’r peth gorau i’w wneud. Ni ellir cytuno i drosglwyddo i raglen arall oni bai bod y ffurflen Newid Rhaglen neu Fodiwl wedi’i chymeradwyo gan yr Arweinydd Rhaglen ar gyfer y rhaglen "newydd" yr ydych yn ceisio mynediad iddi ac os yw'n briodol, y tîm Cydymffurfiaeth Mewnfudo. Rhaid bodloni unrhyw ofynion mynediad ychwanegol a all fod yn gysylltiedig â’r rhaglen newydd e.e. gwiriadau DBS.

5.2 Os ydych yn fyfyriwr rhyngwladol, rhaid cwblhau'r cwrs newydd o fewn cyfnod eich fisa presennol a rhaid i'r cwrs newydd fod yn berthnasol i'r cwrs blaenorol, neu rhaid i'r cwrs blaenorol a'r cwrs newydd ar y cyd gefnogi eich dyheadau gyrfaol dilys. Os nad oes yr un o'r uchod yn berthnasol, rhaid i chi wneud cais yn gyntaf i'r UKVI am fisa newydd.

5.3 Os yw'r trosglwyddiad wedi deillio oherwydd bod rhaglen ddilys wedi dod i ben, cewch eich hysbysu o'ch opsiynau ac unrhyw ofynion ychwanegol.

5.4 Os ydych yn trosglwyddo o sefydliad partner i'r Brifysgol neu o un sefydliad partner i'r llall ond yn parhau i fod yn rhan o'r un rhaglen yn y Brifysgol gyda’r un modiwlau, bydd unrhyw ymdrechion ar gyfer asesiadau yn y sefydliad gwreiddiol yn parhau i gael eu hystyried. Ni chewch ond yr un nifer o gynigion ag y byddech wedi eu cael petaech wedi astudio'r rhaglen gyfan gyda'r sefydliad gwreiddiol a bydd unrhyw ganlyniadau asesu yn parhau i gael eu hystyried.

5.5 Bydd y rheoliad uchod hefyd yn berthnasol os ydych yn trosglwyddo rhwng safleoedd astudio. Bydd y Brifysgol yn cadw at y gofynion cyfreithiol a ddarperir gan UKVI ynghylch trosglwyddo safleoedd astudio.

### 6 Dewis Gadael a Thynnu'n Ôl o'ch Rhaglen

6.1 Os ydych yn ystyried tynnu'n ôl o'ch rhaglen, dylech gwrdd ag aelod o'r Tîm Rhaglen neu Diwtor Personol i drafod eich amgylchiadau ac i ystyried opsiynau. Mae mwy o wybodaeth wedi'i chyhoeddi yn y Polisi Ymgysylltu Academaidd i Fyfyrwyr.

6.2 Os byddwch yn gwneud penderfyniad terfynol i dynnu'n ôl o'ch rhaglen, bydd angen:

- Llenwi ffurflen Tynnu'n Ôl y Brifysgol.
- Talu ffioedd sy'n ddyledus i'r Brifysgol neu ddarparwr partner.
- Ymgysylltu â'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ac unrhyw awdurdod arall sy'n cefnogi eich astudiaethau'n ariannol lle bo hynny'n berthnasol.
- Cwblhau unrhyw ofynion eraill sy'n berthnasol i'ch rhaglen os byddwch yn tynnu'n ôl.

6.3 Os byddwch yn tynnu'n ôl yn wirfoddol a bod eich amgylchiadau'n newid wedi hynny, efallai y caniateir i chi ailgofrestru ar y rhaglen os yw'r camau hyn o fewn y cyfnod cofrestru fel y nodir yn y Rheoliadau sy'n benodol i'ch dyfarniad. Gall unrhyw ailgofrestru hefyd fod yn ddarostyngedig i ofynion eraill fel fisâu neu ofynion corff proffesiynol.

6.4 Mae unrhyw benderfyniad a wnewch i adael eich rhaglen yn wahanol i'r penderfyniad y gall Bwrdd Asesu ei wneud i'ch tynnu yn ôl o'ch rhaglen ar sail academaidd lle rydych wedi methu modiwl/au ac wedi methu pob cyfle i ailsefyll. Mae gwybodaeth ynghylch y gofynion i basio a'r cyfleoedd i ailsefyll sydd ar gael i chi ar gael yn y Rheoliadau sy'n benodol i'ch dyfarniad.

## D. Ymddygiad Myfyrwyr

### 1 Siartr Myfyrwyr

1.1 Cyhoeddir y Siartr Myfyrwyr ar wefan y Brifysgol ac mae'n cadarnhau'r gwerthoedd a'r ymddygiadau a ddisgwylir gennych fel rhan o gymuned y Brifysgol.

### 2 Camymddwyn Myfyrwyr

2.1 Mae'r Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr a'r Polisi Camymddwyn a Thrais Rhywiol yn cynnwys diffiniad y Brifysgol o bob math o gamymddwyn, y camau a gymerir i ymchwilio i ymddygiad honedig a'r cosbau posibl y gellir eu rhoi pan fydd honiadau yn cael eu cadarnhau.

### 3 Uniondeb Academaidd a Chamymddwyn

3.1 Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich gwaith yn cadw at yr egwyddorion o uniondeb academaidd da fel y cânt eu nodi yn y Weithdrefn Uniondeb Academaidd.

3.2 Mae'r Weithdrefn Uniondeb Academaidd yn cynnwys diffiniad y Brifysgol o uniondeb academaidd da, yr hyn sy'n gyfystyr â chamymddwyn academaidd, a'r camau dilynol a gymerir i ymchwilio i honiadau o gamymddwyn a'r cosbau posibl y gellir eu rhoi pan fydd honiadau yn cael eu cadarnhau.

### 4 Addasrwydd i Ymarfer

4.1 Os ydych chi'n astudio ar raglen broffesiynol, mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau eich bod yn cyflawni'r ymddygiadau proffesiynol sy'n ofynnol o'r rhaglen honno.

4.2 Mae rhaglen broffesiynol yn cael ei chydnabod gan Gorff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol. Bydd y Corff yn pennu gofynion proffesiynol y mae'n rhaid i chi eu bodloni fel rhan o'ch rhaglen ochr yn ochr â'r gofynion academaidd. Bydd yr holl ofynion yn cael eu cynnwys yn eich Llawlyfr Rhaglen.

4.3 Mae'r Weithdrefn Addasrwydd ar gyfer Ymarferyn nodi'r camau y bydd y Brifysgol yn eu cymryd i ymchwilio i honiadau o ymddygiad amhriodol a'r cosbau posibl y gellir eu rhoi pan fydd honiadau yn cael eu cynnal.

4.4 Gellir defnyddio'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer hefyd pan fo honiad penodol wedi'i wneud neu ei gadarnhau yn y Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr, y Weithdrefn Uniondeb Academaidd, y Weithdrefn Addasrwydd i Astudio neu lle cyflwynir cwyn flinderus.

## E. Asesiad

### 1 Trosolwg o Asesiadau

1.1 Mae asesiadau wedi'u cynllunio i brofi a ydych wedi llwyddo i fodloni'r deilliannau dysgu gofynnol a nodir yn eich Manyleb Rhaglen.

1.2 Mae gan y Brifysgol Bolisi Asesu sy'n nodi ei dull cyffredinol o ddarparu a rheoli asesu.

1.3 Mae pob rhaglen wedi'i rhannu'n fodiwlau sydd â chanlyniadau dysgu penodol, ac ar gyfer pob modiwl, bydd un neu fwy o asesiadau.

1.4 Bydd y Rheoliadau sy'n benodol i'ch dyfarniad yn nodi ar ba lefel y mae angen i chi gwblhau eich asesiadau er mwyn symud ymlaen ar eich rhaglen a/neu gael eich ystyried ar gyfer y dyfarniad.

### 2 Tasgau Asesu

2.1 Bydd y Brifysgol (neu ddarparwr partner) yn rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i chi (sydd ar gael yn electronig) am dasgau asesu y mae'n ofynnol i chi eu cwblhau. Bydd amserlen asesu a fydd yn nodi dyddiadau ar gyfer pob asesiad hefyd yn cael ei darparu. Eich cyfrifoldeb chi yw ymgysylltu â dyddiad, amser, lleoliad a dull eich asesiad ac unrhyw ofynion cysylltiedig. Ni fydd unrhyw gamgymeriadau neu amryfusedd fel arfer yn cael eu hystyried yn Amgylchiadau Esgusodol dilys (gweler Rheoliad E3).

2.2 Fe'ch hysbysir o'r meini prawf marcio/graddio ar gyfer pob asesiad.

2.3 Cyn ac yn ystod unrhyw asesiad, mae'n ofynnol i chi ymddwyn gydag uniondeb a gonestrwydd. Bydd methu â gwneud hyn yn arwain at ystyried eich ymddygiad drwy'r Weithdrefn Uniondeb Academaidd. Fel arfer, bydd unrhyw achos a gadarnhawyd yn arwain at roi cosb i chi, hyd at a chan gynnwys eich gwahardd o'r Brifysgol neu sefydliad partner.

2.4 Efallai y bydd gennych hawl i gyflwyno cais am estyniad mewn perthynas â chyflwyno gwaith ar gyfer ei asesu. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn y Polisi Asesu.

## 3 Amgylchiadau Esgusodol

3.1 Gallwch wneud cais am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno asesiad neu ofyn am ohirio arholiad, prawf neu asesiad yn seiliedig ar ymarfer os oes gennych chi Amgylchiadau Esgusodol.

3.2 Amgylchiadau Esgusodol yw'r sefyllfaoedd hynny nad ydynt yn rhagweladwy ac sydd y tu hwnt i'ch rheolaeth ac a allai gael effaith ar eich perfformiad academaidd. Nodir canllawiau ar yr hyn sydd yn, a ddim yn cael ei ystyried yn Amgylchiadau Esgusodol yn y Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol.

3.3 Mae gwybodaeth am sut i wneud cais am Amgylchiadau Esgusodol yn cael ei darparu yn y Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol. Caiff ceisiadau eu hystyried gan Banel Amgylchiadau Esgusodol a byddwch yn cael gwybod am benderfyniad y Panel.

3.4 Os cewch eich taro'n wael yn ystod arholiadau neu brawf dosbarth, bydd yr aelod staff neu'r goruchwyliwr sy'n bresennol yn nodi hyn, a byddwch yn gymwys i gyflwyno hawliad ar gyfer Amgylchiadau Esgusodol fel y nodir hynny yn y Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol.

3.5 Os na fyddwch yn cymryd rhan mewn asesiad a/neu os nad oes gennych Amgylchiadau Esgusodol cymeradwy, bydd y Brifysgol yn ystyried eich bod wedi methu'r asesiad hwnnw. Cyhoeddir cyfleoedd i ailsefyll yn y Rheoliadau sy'n benodol i'ch dyfarniad.

## 4 Gwaith cwrs

4.1 Rhaid i chi gyflwyno gwaith cwrs drwy Amgylchedd Dysgu Rhithwir (VLE) y Brifysgol neu'r sefydliad partner ble'r ydych yn astudio. Os nad yw eich gwaith cwrs yn addas i'w gyflwyno drwy'r VLE, byddwch yn cael arweiniad ar sut i'w gyflwyno.

4.2 Oni bai bod gennych Amgylchiadau Esgusodol cymeradwy neu estyniad tymor byr cymeradwy i ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwaith, byddwch yn derbyn cosb am gyflwyno gwaith yn hwyr os byddwch yn cyflwyno asesiad ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd. Mae'r cosbau fel a ganlyn:

- Y marc pasio lleiaf os yw'r cyflwyniad hyd at bum niwrnod gwaith yn hwyr ac os yw'n bodloni'r gofynion pasio.
- Marc o sero (methu) os cyflwynir y gwaith fwy na phum diwrnod gwaith yn hwyr. Efallai y caniateir i chi ailsefyll yr asesiad a fethwyd.

4.3 Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn cyflwyno’r fersiwn cywir o unrhyw asesiadau yn y fformat a nodwyd a thrwy’r platfform y cytunwyd arno. Dylai'r drefn enwi ddisgwyliedig ar gyfer ffeiliau a gyflwynir yn electronig fod ar ffurf Myfyriwr_Rhif–Modiwl_Cod–Asesiad_Rhif. Os nad ydych yn cyflwyno’r fersiwn gywir bydd y Brifysgol yn gofyn i'r asesiad gael ei ail-gyflwyno yn y fformat a nodwyd, os cyflwynir y gwaith wedi’r dyddiad cau bydd rheoliad E4.2 yn berthnasol.

4.4 Rhaid i chi gydymffurfio â'r nifer geiriau a osodir ar gyfer aseiniadau ysgrifenedig. Byddwch yn cael arweiniad yn eich Llawlyfr Rhaglen neu’r brîff ar gyfer yr aseiniad am yr hyn sydd wedi'i gynnwys ac nad yw wedi'i gynnwys yn y cyfrif geiriau (e.e. cyfeiriadau). Mae gwybodaeth am unrhyw gosbau a gewch am beidio â chydymffurfio wedi'u nodi yn llawlyfr y rhaglen neu'r briff asesu.

**5 Arholiadau**

5.1 Mae arholiad yn derm cyffredinol sy'n cynnwys unrhyw brawf crynodol y mae terfyn amser penodol iddo sy'n digwydd yn ystod eich cyfnod astudio.

5.2 Yn dibynnu ar eich dull astudio, cynhelir arholiadau ar safle'r Brifysgol, ar safle sefydliad partner neu ar-lein o bell.

5.3 I sefyll arholiadau ar y campws, bydd angen i chi fynd i, a chwblhau'r arholiad mewn ystafell arholi. Yn achos arholiadau ar-lein, bydd angen i chi gael mynediad at, a chwblhau'r arholiad trwy'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir (Moodle neu Canvas). Bydd dull cyflwyno eich arholiad yn cael ei nodi gan y Brifysgol.

5.4 Mewn Amgylchiadau Esgusodol, a chyda chymeradwyaeth y Brifysgol, efallai y bydd modd i chi sefyll arholiad mewn canolfan gymeradwy arall a fydd fel arfer yn Brifysgol arall neu Swyddfa'r Cyngor Prydeinig. Fel rhan o'r broses hon, bydd angen i’r Brifysgol asesu:

- A fedrir gwneud trefniadau cyffelyb i sicrhau diogelwch y broses asesu.
- A fedr lleoliad arall roi sylw i unrhyw anghenion Rhesymol/Addasiadau a allai fod gennych ac a gytunwyd gyda'r Brifysgol.

5.5 Os nad ydych yn gallu cymryd rhan mewn arholiad oherwydd Amgylchiadau Esgusodol (gweler Rheoliad E3), gallwch wneud cais i gael y cyfle i sefyll yr asesiad yn ddiweddarach ar ddyddiad a bennir gan y Brifysgol neu sefydliad partner.

5.6 Oni bai bod gennych Amgylchiadau Esgusodol cymeradwy, rhaid i chi gymryd rhan yn yr arholiad. Bydd datganiad ffit i sefyll yn cael ei ddarparu gyda phob arholiad. Drwy roi cynnig ar yr arholiad, tybir eich bod wedi darllen, deall a chytuno i'r datganiad hwn. Os na fyddwch yn sefyll yr arholiad, byddwch yn methu. Cyhoeddir y cyfleoedd i ailsefyll sydd ar gael i chi yn y Rheoliadau sy'n benodol i'ch dyfarniad.

5.7 Mae'r Brifysgol (neu ddarparwr partner) yn gyfrifol am ddiogelwch deunydd arholiad (gan

gynnwys arholiad sy'n cael ei gynnal ar-lein). Os oes tystiolaeth bod diogelwch arholiad wedi'i beryglu, bydd trefniadau amgen yn cael eu rhoi ar waith, a byddwch yn cael eich cynghori yn unol â hynny.

5.8 Cyn pob arholiad, bydd y Brifysgol (neu ddarparwr partner) yn rhoi gwybodaeth i chi am yr hyn y gallwch ac na allwch fynd hefo chi i'r arholiad.

5.9 Wrth gymryd rhan mewn arholiad:

- Bydd angen i chi gadarnhau pwy ydych chi (gan gynnwys mewngofnodi diogel ar- lein).
- Bydd angen i chi gymryd yr arholiad o fewn y cyfnod dechrau a gorffen a ragnodir gan y Brifysgol (gan gynnwys y ffenestr amser ar gyfer cyflwyniadau ar- lein).
- Bydd angen i chi ddarllen y cyfarwyddiadau a'r datganiad Ffit i Sefyll.
- Ni chaniateir amser ychwanegol i chi os byddwch yn cyrraedd arholiad yn hwyr.
- Bydd angen sicrhau bod gennych offer technegol dibynadwy a chysylltiad rhyngrwyd digonol os ydych yn cymryd rhan mewn arholiad ar-lein.
- Bod yng nghwmni aelod o staff os oes angen i chi adael yr ystafell arholi ar y campws dros dro am reswm dilys.
- Ni fyddwch yn cael eich aildderbyn i'r lleoliad arholi os byddwch yn gadael yn gynnar ac eithrio yn yr amgylchiadau dros dro uchod.
- Bod yn ymwybodol o sut i rybuddio aelod o staff am unrhyw gamgymeriadau yn y papur arholi, os ydych yn teimlo'n sâl yn ystod yr arholiad neu os oes gennych unrhyw anawsterau technegol wrth gwblhau arholiad ar-lein.
- Cael cefnogaeth gan y Brifysgol i weithredu unrhyw Addasiadau Rhesymol y mae angen eu gwneud i chi mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Rheoliad C2).
- Mae'r ofynnol i chi gwblhau eich arholiad mewn fformat darllenadwy.
- Cewch eich cynghori am weithdrefnau os bydd larwm tân neu aflonyddwch arall yn ystod yr arholiad.

## 6 Profion ac Asesiadau'n Seiliedig ar Ymarfer

6.1 Gellir gosod prawf neu asesiad yn seiliedig ar ymarfer yn ystod neu ar ddiwedd modiwl fel rhan o'r amserlen asesu. Bydd dull cyflawni eich profion neu asesiadau'n seiliedig ar ymarfer yn cael ei nodi gan y Brifysgol.

6.2 Bydd y rheoliadau a nodir uchod ar gyfer arholiadau hefyd yn berthnasol i brofion ac asesiadau yn seiliedig ar ymarfer.

## 7 Derbyn Marciau Asesu

7.1 Bydd pob asesiad y byddwch yn ei gyflawni yn cael ei adolygu gan aelod o staff a byddwch yn derbyn gradd neu farc dros dro. Fel arfer, byddwch yn derbyn eich marc dros dro o fewn tair

wythnos i gwblhau'r asesiad.

7.2 Mae'r Brifysgol yn gweithredu proses gymedroli lle mae sampl o asesiadau'r modiwl a gwblhawyd gan eich carfan yn cael ei hadolygu gan aelod arall o staff. Os oes unrhyw anghysondeb sylweddol rhwng barn y marciwr cyntaf a'r safonwr, byddant yn adolygu sampl mwy o waith i sicrhau bod y marciau yn deg ac yn gywir. Os na ellir datrys yr anghysondeb ar ôl gwneud hynny, defnyddir marciwr pellach.

7.3 Os yw'r modiwl yn draethawd hir/prosiect mawr ar gam olaf eich dyfarniad, bydd dau farciwr fel arfer yn edrych arno.

7.4 Mae'r marciau a dderbyniwch yn ystod eich lefel astudio yn rhai dros dro hyd nes y cânt eu cadarnhau gan Fwrdd Asesu.

7.5 Ar gyfer diffiniadau o rolau sy'n gysylltiedig â'r broses farcio, cyfeiriwch at y Polisi Asesu.

## 8 Adborth

8.1 Rhoddir adborth ar bob asesiad. Ar gyfer gwaith cwrs, bydd yn cael ei ddarparu mewn fformat parhaol naill ai'n ysgrifenedig neu'n ddigidol. Gall hefyd gynnwys sylwadau ar eich gwaith gwirioneddol neu ar gyfathrebiad neu drafodaeth arall, fel y bo'n briodol. Nid yw sgriptiau arholiad yn cael eu dychwelyd i fyfyrwyr, ond mae gennych hawl i gael adborth ar eich arholiadau. Bydd yr adborth a ddarperir yn sylwadau ansoddol priodol ac adeiladol ac fel arfer, yn cael eu nodi ar daflen adborth ar wahân. Bydd yr adborth yn dangos sut y cafodd y marciau eu gweithio allan. Ym mhob achos, eglurir fformat yr adborth yn y brîff ar gyfer yr aseiniad.

## 9 Arholwyr Allanol

9.1 Mae arweiniad a chyngor annibynnol ac addysgiadol gan Arholwyr Allanol yn rhan werthfawr iawn o brosesau'r Brifysgol ar gyfer sicrhau safonau darpariaeth academaidd, hyrwyddo cyrhaeddiad myfyrwyr, nodi enghreifftiau o arfer da a chyfleoedd i wella. Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod Arholwyr Allanol ar gael ar gyfer yr holl raglenni a modiwlau a gyflwynir. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Weithdrefn ar gyfer Arholwyr Allanol.

9.2 Bydd penodiadau Arholwyr Allanol yn cael eu cymeradwyo gan y Panel Enwebu Asesiad Allanol.

9.3 Bydd yr Arholwr(wyr) Allanol yn academydd a/neu'n ymarferydd yn eich disgyblaeth rhaglen nad yw'n cael ei gyflogi gan y Brifysgol. Byddant yn edrych o'r tu allan ar degwch y marciau a ddyfarnwyd a safonau academaidd cyffredinol eich rhaglen yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Bydd ganddynt gymwysterau addas a phrofiad academaidd cyfredol. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn y Weithdrefn ar gyfer Arholwyr Allanol.

9.4 Bydd yr Arholwr(wyr) Allanol yn adolygu sampl o waith sy'n adlewyrchu ystod lawn o gyflawniadau myfyrwyr a'r ystod lawn o farcwyr i sicrhau bod pob myfyriwr mewn sefyllfa deg mewn perthynas â gweddill y garfan. Bydd maint y samplu a'r dull ar gyfer penderfynu ar samplu

o’r fath yn cael ei gytuno rhwng arweinydd y rhaglen ac Arholwr(wyr) Allanol, ond isafswm maint unrhyw sampl fydd 10% neu bum darn unigol o waith, pa un bynnag sydd fwyaf. Fodd bynnag, mae gan yr Arholwr(wyr) Allanol yr hawl i weld yr holl waith.

9.5 Bydd yr Arholwr(wyr) Allanol yn aelod o'r Bwrdd Asesu Modiwlau (gweler Rheoliad F2). Byddant hefyd yn darparu adroddiad blynyddol i'r Brifysgol ar faterion sy'n ymwneud â safonau academaidd eich modiwlau a'ch rhaglen. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried a'i ymateb iddo gan y Tîm Rhaglen priodol. Bydd materion a godir ac adborth yn cael sylw pellach yng Ngweithdrefn Monitro a Gwelliant Parhaus y rhaglen (gweler y Weithdrefn ar gyfer Monitro a Gwelliant Parhaus, am fwy o wybodaeth am y weithdrefn hon) ac adroddiad Trosolwg yr Arholwr Allanol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau (QSC).

9.6 Mae rhagor o wybodaeth am rôl a chylch gorchwyl Arholwyr Allanol ar gael yn y Weithdrefn ar gyfer Arholwyr Allanol.

**10 Pasio a Methu'ch Asesiadau – digolllediad**

10.1 Mae'r Rheoliadau sy'n benodol i'ch dyfarniad yn nodi'r marc lleiaf y mae angen i chi ei gael i basio asesiad a'r camau a fydd yn dilyn os byddwch yn methu asesiad.

10.2 O dan feini prawf penodol (gweler rheoliad E10.4), efallai y byddwch yn gymwys i gael eich digolledu. Mae hyn yn golygu, ar adeg digolledu, y bydd y methiant yn cael ei dderbyn, na fydd yn rhaid i chi ailsefyll yr asesiad a byddwch yn symud ymlaen i'r Lefel astudio nesaf. Os bydd pob lefel wedi'i chwblhau, cewch eich ystyried ar gyfer y dyfarniad, neu fel arall, os yw'r lefelau perthnasol wedi'u cwblhau, cewch eich ystyried am ddyfarniad ymadael. Pan fydd methiant yn cael ei ddigolledu, byddwch yn derbyn credyd am y modiwl yr ydych wedi ei fethu, ond bydd y marc a gawsoch yn sefyll a bydd yn cyfrannu at eich proffil marciau cyffredinol.

10.3 Ar gyfer yr holl raglenni, bydd iawndal yn cael ei gymhwyso ar gyfer uchafswm o 20 credyd. Yr eithriad i hynny yw ar gyfer y Flwyddyn Sylfaen lle gellir digolledu am uchafswm o 40 credyd, a rhaglenni seiliedig ar 30 credyd lle gellir digolledu ar gyfer uchafswm o 30 credyd. Ar gyfer yr holl raglenni eraill a ddarperir gan sefydliad partner gall hyn amrywio a dylech gyfeirio os gwelwch yn dda at eich llawlyfr rhaglen.

10.4 Y meini prawf penodol y mae angen i chi eu bodloni er mwyn i'r Bwrdd Asesu eich digolledu am y modiwl/au a fethwyd yw:

- Rydych wedi cael marc cyfartalog cyffredinol ar gyfer Lefel yr astudiaeth o leiaf 40%.
- Rydych wedi cyflawni o leiaf 35% ar gyfer y modiwl/au a fethwyd.
- Rydych wedi cymryd rhan ym mhob asesiad o fewn y modiwl/au a fethwyd.

Hyd yn oed os ydych yn bodloni'r meini prawf uchod, ni fydd digolledion yn berthnasol lle:

- Mae eich rhaglen neu fodiwl wedi'i heithrio rhag digolledion oherwydd rhesymau corff proffesiynol. Bydd eich Manyleb Rhaglen yn darparu'r wybodaeth hon.
- Mae'r modiwl a fethwyd yn rhagofyniad ar gyfer symud ymlaen i astudio lefel nesaf y

rhaglen. Mae hyn yn golygu y barnwyd ei bod yn angenrheidiol yn nyluniad y rhaglen i chi ddangos eich bod yn cyflawni deilliannau dysgu'r asesiad/au rydych wedi'u methu.

- Mae marc terfynol y modiwl yn disgyn o fewn yr ystod ar gyfer iawndal, ond roedd y modiwl yn rhan o unrhyw weithdrefn Prifysgol (gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i Uniondeb Academaidd ac Addasrwydd i Ymarfer) lle cadarnhawyd y canlyniad gan arwain at ddyfarniad Cyfeirio/Methu unrhyw elfennau o gyfanswm marc y modiwl.
- Asesir y modiwl methedig ar sail pasio/methu yn hytrach na thrwy sgôr rifiadol.
- Rydych wedi cofrestru ar lefel y rhaglen gyda mwy na 60 credyd o Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol/Dysgu drwy Brofiad.
- Mae'r modiwl wedi'i eithrio rhag digolledu gan ei fod yn rhan o'r modiwlau sydd, gyda'i gilydd, yn cyfrif am 60 credyd y bloc ymchwil. Bydd manyleb eich rhaglen yn darparu'r wybodaeth hon.

10.5 Lle mae gennych farc wedi'i ddigolledu, mae gennych yr hawl i ymgais bellach mewn asesiad a fydd yn cael ei gapio ar y marc pasio lleiaf. Os ydych yn dymuno cael eich ailasesu, rhaid i chi roi gwybod i assessmentandawards@wrexham.ac.uk o fewn 7 diwrnod o gyhoeddi'r canlyniadau.

10.6 Pan fydd eich rhaglen yn cynnwys mwy nag un lefel astudio, bydd y Rheoliadau sy'n benodol i'ch dyfarniad yn cadarnhau'r hyn y mae angen i chi ei gyflawni er mwyn symud ymlaen i'r lefel nesaf.

## F. Byrddau Asesu

1. Mae'r Brifysgol yn cynnal cyfarfodydd ffurfiol i ystyried marciau myfyrwyr. Dyma'r Byrddau Asesu Modiwlau a'r Byrddau Asesu Dyfarniad/Dilyniant . Mae rhagor o wybodaeth am y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Byrddau hyn ar gael yn y Polisi Asesu.

2. Bydd y Byrddau Asesu Modiwlau yn cyfarfod drwy gydol y flwyddyn academaidd i ddarparu ar gyfer yr ystod amrywiol o fyfyrwyr sydd gan Brifysgol Wrecsam. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Polisi Asesu.

3. Y Bwrdd Asesu Dyfarniad/Dilyniant yw'r corff sy'n gyfrifol am ystyried a allwch symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf (lle mae hyn yn berthnasol i'ch rhaglen) neu gael eich ystyried ar gyfer y dyfarniad rydych wedi cofrestru ar ei gyfer.

4. Rhaid i Fyrddau Asesu ystyried a rhoi penderfyniad ar unrhyw achos lle mae Tîm Rhaglen yn cynnig y dylid amrywio'r patrwm cynnydd arferol ar gyfer un neu fwy o fyfyrwyr. Rhaid bod sail i gefnogi amrywio rheoliadau, a fydd yn cael eu cofnodi'n glir.

## G. Afreoleidd-dra Gweithdrefnol

1. Mae afreoleidd-dra gweithdrefnol yn gamgymeriad gweithdrefnol neu weinyddol sy'n cael effaith negyddol ar ganlyniadau eich asesiad neu ganlyniadau grŵp o fyfyrwyr. Mae sefyllfaoedd o'r fath yn eithriadol, ac mae gan y Brifysgol weithdrefnau ar waith i fynd i'r afael â'r amgylchiadau hyn fel nad ydych dan anfantais.

2. Pan fydd aelod o staff yn nodi afreoleidd-dra gweithdrefnol yn y broses asesu, bydd y tîm Ansawdd a Rheoleiddio yn cael ei hysbysu a bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal.

3. Bydd yr ymchwiliad yn ystyried sut y digwyddodd yr afreoleidd-dra, natur yr effaith a nifer y myfyrwyr yr effeithiwyd arnynt. Bydd adroddiad ar yr ymchwiliad yn cael ei gyflwyno i Gadeirydd y Bwrdd Asesu.

4. Bydd y Bwrdd Asesu yn ystyried yr adroddiad ac yn cytuno ar un neu fwy o'r camau canlynol i sicrhau nad yw myfyrwyr dan anfantais a bod safonau academaidd ac unrhyw ofynion proffesiynol yn cael eu cynnal:
   - Rhoi cyfle i chi gymryd yr asesiad eto fel ymgais gyntaf.
   - Peidio â chynnwys yr asesiad yng nghyfrifiad y Lefel neu'r Dyfarniad terfynol.
   - Gwneud argymhelliad i Gadeirydd y Bwrdd Academaidd bod rheoliadau'n cael eu hatal a chynnig ffordd amgen o gydnabod cyflawniad myfyrwyr.

5. Ni fydd myfyrwyr, dan unrhyw amgylchiadau, yn derbyn marciau ychwanegol i wneud iawn am afreoleidd-dra.

6. Pan fydd Afreoleidd-dra Gweithdrefnol yn digwydd mewn Bwrdd Asesu a bod canlyniadau neu ddyfarniadau eisoes wedi'u rhoi i fyfyrwyr, bydd Cadeirydd y Bwrdd Academaidd yn comisiynu ymchwiliad. Pan fo'r ymchwiliad yn dangos tystiolaeth bod angen gwyrdroi un neu fwy o'r penderfyniadau gwreiddiol, bydd Cadeirydd y Bwrdd Academaidd yn gofyn i'r Bwrdd Asesu ailymgynnull i fynd i'r afael â'r afreoleidd-dra. Bydd camau i fynd i'r afael â'r afreoleidd-dra yn cael eu cymryd mewn ymgynghoriad â'r Arholwr(wyr) Allanol a'r Dirprwy Is-Ganghellor. Rhaid i'r rhesymeg dros y camau gweithredu gael eu cofnodi'n glir gan y Bwrdd Asesu a bydd y digwyddiad yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Academaidd. Os yw'r Afreoleidd-dra Gweithdrefnol yn effeithio ar eich canlyniadau, bydd y Brifysgol yn eich hysbysu am yr hyn sydd wedi digwydd, y camau y mae wedi'u cymryd a'r goblygiadau ar gyfer eich canlyniadau neu'ch dyfarniad.

7. Gall myfyriwr adrodd am Afreoleidd-dra Gweithdrefnol. Yn ystod y broses asesu (e.e. yn ystod arholiad), dylech gyflwyno adroddiad i'r aelod staff enwebedig a bydd ymchwiliad yn dilyn. Dylid defnyddio'r broses Apeliadau Academaidd (gweler Rheoliad I) i adrodd am Afreoleidd-dra Gweithdrefnol ar ôl cyhoeddi canlyniadau.

## H. Dyfarniadau

### 1 Dyfarniadau

1.1 Bydd y Brifysgol yn dyfarnu i chi'r cymhwyster y gwnaethoch gofrestru ar ei gyfer os ydych yn bodloni'r holl ofynion a nodir yn y Fanyleb Rhaglen a'r Rheoliadau.

1.2 Os yw nifer y modiwlau a astudir ar un lefel yn cario cyfanswm credyd sy'n fwy na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer lefel neu gwblhau dyfarniad, yna:

- Y credydau a ddewisir ar gyfer lefel neu gwblhau'r dyfarniad fydd y rhai sy'n ofynnol o fanyleb y rhaglen a ddilyswyd sy'n cynhyrchu'r marc uchaf posibl, ond rhaid iddynt gynnwys yr holl fodiwlau craidd.
- Gellir dyfarnu credydau drwy ddigolledu ar gyfer modiwlau cymwys hyd at yr uchafswm a bennir o dan y rheoliadau digolledu dyfarniadau perthnasol yn unig.

### 2 Dyfarniadau Ymadael

2.1 Gall y Brifysgol roi dyfarniad ymadael lle nad ydych wedi bodloni'r gofynion academaidd ar gyfer y cymhwyster yr oeddech wedi'i dargedu'n wreiddiol ac wedi cofrestru arno, ond eich bod wedi cwblhau'r gofynion academaidd i gael dyfarniad lefel is. Nid yw dyfarniadau ymadael ar gael ar gyfer pob rhaglen. Nodir argaeledd dyfarniad ymadael yn y Rheoliadau sy’n benodol i’ch dyfarniad a manyleb eich rhaglen.

### 3 Dyfarniadau Aegrotat

3.1 Dyfarniad aegrotat yw lle mae'r Brifysgol yn defnyddio'r marciau o lai o fodiwlau i benderfynu ar eich dyfarniad oherwydd eich amgylchiadau penodol.

3.2 Gall y Brifysgol wneud dyfarniad aegrotat o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Os ydych yn cael eich rhwystro gan salwch sylweddol rhag cwblhau asesiadau terfynol eich rhaglen.
- Lle mae tystiolaeth feddygol neu dystiolaeth berthnasol arall i ddangos bod gwneud dyfarniad aegrotat yn ddull gweithredu priodol. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth sy'n dangos y byddai'n annhebygol neu'n heriol iawn i chi gwblhau eich asesiadau.
- Bod y Bwrdd Cynnydd/Dyfarnu yn fodlon bod eich perfformiad mewn asesiadau ar y rhaglen hyd yma yn dangos y byddech wedi pasio'r asesiadau a oedd gennych ar ôl i’w cwblhau.
- Lle nad yw'r asesiad sydd ar ôl i’w gwblhau yn draethawd hir nac yn gydran gyfatebol o raglen Meistr neu'r traethawd ymchwil neu gydran gyfatebol o radd ymchwil.
- Eich bod yn dymuno derbyn dyfarniad aegrotat yn hytrach na chwblhau'r asesiad/au sy'n weddill ar adeg y cytunwyd arno gyda'r Brifysgol ac o fewn terfynau amser y cyfnod cofrestru hiraf.

3.3 Mae gradd aegrotat yn ddi-ddosbarth. Felly, dylid ystyried a fydd gradd heb ddosbarth yn effeithio ar ofynion unrhyw gorff proffesiynol neu ofynion eraill ar ôl graddio.

3.4 Caiff Gwobrau Aegrotat eu cadarnhau gan y Bwrdd Academaidd yn dilyn argymhelliad gan Fwrdd Asesu.

**4 Dyfarniadau Ar Ôl Marwolaeth**

4.1 Petaech yn marw yn ystod eich amser cofrestredig gyda'r Brifysgol, byddwn yn ystyried y ffordd fwyaf priodol o gydnabod eich cyflawniadau academaidd.

4.2 Os oeddech wedi cwblhau'r holl ofynion asesu ar gyfer y rhaglen, cewch eich ystyried ar gyfer y dyfarniad (gyda dosbarthiad) y cawsoch eich cofrestru ar ei gyfer.

4.3 Os oeddech chi eto i gwblhau rhan o'r rhaglen, bydd y Brifysgol yn ystyried yn sensitif y camau gweithredu mwyaf priodol yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Lle’r oeddech wedi pasio asesiadau a fyddai'n rhoi'r hawl i chi gael cymhwyster lefel is (e.e. Tystysgrif neu Ddiploma Addysg Uwch pe baech yn astudio ar Radd Baglor), bydd y dyfarniad hwn fel arfer yn cael ei wneud.
- Os oeddech wedi cwblhau'ch lefel derfynol neu’r asesiadau ar gyfer y dyfarniad yn rhannol (h.y. eich bod wedi ymgymryd â gwaith y tu hwnt i'r cymhwyster lefel is), byddem yn ystyried dyfarnu'r radd gyda neu heb ddosbarthiad. Byddai unrhyw ddefnydd o ddosbarthiad yn dibynnu ar y perfformiad yr oeddech wedi'i gyflawni hyd yma mewn asesiadau cynharach neu mewn gwaith a ddrafftiwyd ar gyfer ei asesu.
- Ar gyfer graddau lefel doethuriaeth, rhoddir ystyriaeth i faint o ymchwil yr oeddech wedi'i wneud mewn perthynas â'r traethawd ymchwil arfaethedig a safon y gwaith a gyflawnwyd (e.e. penodau drafft, cyflwyniadau) hyd yn hyn. Byddai'r brifysgol ddilysu yn gwneud y penderfyniad terfynol ar unrhyw ddyfarniad ar ôl marwolaeth.
- Unrhyw rinweddau eraill y mae'r Bwrdd Asesu yn dymuno eu cyflwyno wrth gyflwyno'r achos dros ddyfarniad ar ôl marwolaeth.

4.4 Cadarnheir dyfarniadau ar ôl marwolaeth gan y Bwrdd Academaidd yn dilyn argymhelliad gan Fwrdd Asesu.

**5 Diddymu Dyfarniadau**

5.1 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ddiddymu dyfarniad a roddwyd i chi o dan yr amgylchiadau canlyno:

- Lle mae tystiolaeth o gamymddwyn academaidd sylweddol sy'n ymwneud â'ch astudiaethau yn unol â'r diffiniadau a nodir yn y Weithdrefn Uniondeb Academaidd ac sy'n cael ei adrodd arno, ei ymchwilio iddo a'i gadarnhau ar ôl graddio.
- Lle mae tystiolaeth o gamymddwyn sylweddol yn unol â'r diffiniadau a nodir yn y Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr a ddigwyddodd yn ystod yr amser yr oeddech wedi cofrestru gyda'r Brifysgol ac sy'n cael ei adrodd arno, ei ymchwilio a'i gadarnhau ar ôl

graddio.

- Os cewch eich dyfarnu'n euog o drosedd ddifrifol o dan gyfraith y DU neu gyfraith ryngwladol a ddigwyddodd cyn, yn ystod neu ar ôl eich astudiaethau gyda'r Brifysgol, a lle mae'r Brifysgol o'r farn bod natur benodol y drosedd yn golygu y dylid diddymu'ch dyfarniad.
- Unrhyw gamau afresymol a gymerwch ar ôl graddio sy'n dwyn anfri ar y Brifysgol.
- Cyfuniad o unrhyw un o'r uchod.

## I. Apeliadau Academaidd

1. Mae gan y Brifysgol Weithdrefn Apeliadau Academaidd lle gallwch apelio yn erbyn penderfyniad academaidd Bwrdd Asesu.

2. Mae mwy o wybodaeth am y broses, gan gynnwys y sail ar gyfer apelio, ar gael yn y Weithdrefn Apeliadau Academaidd.

## J. Cwynion

1. Mae gan y Brifysgol Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr lle gallwch gwyno am unrhyw agwedd ehangach ar eich profiad yn y Brifysgol. Os ydych chi'n astudio gyda Darparwr Partner, dylech ddefnyddio gweithdrefn gwynion y partner yn y lle cyntaf.

2. Mae mwy o wybodaeth am y broses gwyno, gan gynnwys y sail ar gyfer apelio, ar gael yn y Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr.

# Rheoliadau ar gyfer Blynyddoedd Sylfaen Israddedig

## UFY-A: Cyflwyniad

1. Dyma'r rheoliadau sy'n benodol i Flynyddoedd Sylfaen israddedig y Brifysgol, a dylech ddarllen y rhain ochr yn ochr â'r Rheoliadau Academaidd Cyffredinol.

2. Pwrpas y Rheoliadau hyn yw nodi'r hyn y bydd yn rhaid i chi ei wneud i basio eich modiwlau, cael credydau, a symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf. Maent hefyd yn nodi'r camau a fydd yn dilyn os na fyddwch yn pasio'ch asesiadau.

## UFY-B: Mynediad

1. Bydd y gofynion y mae angen i chi eu bodloni i gael eich derbyn i raglen yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

## UFY-C: Asesu a Dyfarnu Credyd

1. Mae'n rhaid i chi roi cynnig ar yr holl gydrannau asesu yn eich holl fodiwlau.

2. Y marc isaf y bydd angen i chi ei gael i basio modiwl fydd naill ai:
   - 40%, oni bai bod eich rhaglen yn eithriad i'r rheoliad hwnnw ac wedi'i rhestru fel atodiad i'r rheoliadau hyn.
   - Gradd lwyddo (fel arfer dim ond pan fo asesiad yn seiliedig ar gymhwysedd.

3. Os yw modiwl yn cynnwys mwy nag un elfen asesu, y marc pasio cyffredinol fydd cyfartaledd pwysoledig yr holl farciau asesu yn y modiwl hwnnw. Bydd pwysoliadau asesiad yn cael eu nodi ym manyleb y modiwl.

4. Byddwch yn derbyn credyd am y modiwl pan fyddwch yn cyrraedd y gofynion pasio.

5. Os byddwch yn cyflawni marc pasio'r modiwl neu'n cael marc uwch, ni chaniateir i chi roi cynnig arall ar yr asesiad/au modiwl hwnnw eto gyda'r bwriad o wella'ch marc. Mae hyn yn cynnwys lle rydych wedi methu cydran asesu benodol o fewn y modiwl ond wedi pasio'r modiwl yn gyffredinol.

## UFY-D: Methu'r Modiwl

1. Os na fyddwch yn cyflawni'r gofynion i basio modiwl neu fodiwlau, byddwch wedi methu.

2. Bydd angen mynd i'r afael â methiant er mwyn i chi allu symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf.

3. Mae sut y gellir mynd i'r afael â'r methiant yn dibynnu ar i ba raddau yr ydych wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu gofynnol, a'r hyn y mae'r Brifysgol angen i chi ei ddangos i brofi eich bod yn gymwys i symud ymlaen i'r Lefel astudio nesaf.

4. Mae'r adrannau canlynol o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r camau gweithredu amgen a fydd yn dilyn pan fyddwch yn methu modiwl.

## 5 Digollediad

5.1 Os yw eich perfformiad asesu cyffredinol ar gyfer Lefel rhaglen yn bodloni meini prawf penodol, bydd y Bwrdd Asesu yn digolledu methiant. Cyfeiriwch at y Rheoliad Cyffredinol E10 am fanylion digolledfiad.

## 6 Ailsefyll

6.1 Lle nad yw digolledfiad yn berthnasol, gall y Bwrdd Asesu ganiatáu i chi ailsefyll yr asesiad/asesiadau a fethwyd.

6.2 Byddwch yn gallu ailsefyll modiwl/au a fethwyd os nad yw'r methiannau'n fwy nag 80 credyd ar y lefel astudio honno. Os ydych wedi methu mwy na 80 credyd, bydd angen i chi ailadrodd y flwyddyn (gweler Rheoliad UFY-D7).

6.3 Ar ôl pasio'r asesiad, byddwch yn cael y credyd am y modiwl hwnnw ac yn derbyn y marc pasio isaf, sef 40%.

6.4 Os na fyddwch yn pasio ar ôl ailsefyll, caniateir un ymgais derfynol i chi ailsefyll oni bai bod y modiwl neu'r rhaglen wedi'i heithrio o'r broses hon fel y nodir yn eich manyleb rhaglen.

6.5 Bydd amseriad ailsefyll am y tro cyntaf neu'r eildro fel a ganlyn:

- Bydd dyddiadau ar gyfer ailsefyll (gan gynnwys dyddiadau ailgyflwyno) yn cael eu rhagnodi gan y Brifysgol.
- Mae gan y Bwrdd Asesu yr hawl i ganiatáu i chi ailsefyll ar y cyfle nesaf sydd ar gael, a lle nad yw'n effeithio'n negyddol ar lwyth gwaith cyffredinol y Brifysgol.
- Os ydych wedi cwblhau'r Lefel ac wedi cyflawni 80 o'r 120 credyd sy'n ofynnol, gall y Bwrdd Asesu ganiatáu i chi symud ymlaen i'r Lefel astudio nesaf ac ailsefyll tra byddwch yn astudio ar y Lefel nesaf honno. Bydd y broses hon ond yn digwydd os caiff ei chaniatáu ar gyfer eich rhaglen ac os nad yw'n effeithio'n negyddol ar eich llwyth gwaith cyffredinol yn y Brifysgol. Bydd angen i chi basio ar ôl ailsefyll y Lefel is honno yn ogystal â phasio gofynion y Lefel astudio nesaf i gael caniatâd i symud ymlaen ymhellach ar y rhaglen a/neu gael eich ystyried ar gyfer y dyfarniad.

6.6 Os yw eich rhaglen wedi'i hachredu gan Gorff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol (PSRB) efallai na fydd yn bosibl cael digolledfiad neu nifer y cyfleoedd i ailsefyll a nodir yn yr adran hon. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion ym manyleb eich rhaglen.

## 7 Ailadrodd Blwyddyn

7.1 Os yw methiannau'r modiwl yn cynnwys neu'n fwy nag 80 credyd o asesiad ar gyfer y Lefel astudio honno, bydd gofyn i chi fel arfer ailadrodd y Lefel honno, gan gynnwys mynychu'r modiwl neu'r modiwlau yr ydych wedi'u methu.

7.2 Os byddwch yn pasio'r modiwl/au a fethwyd yn y flwyddyn yr ydych wedi ei hailadrodd, dyfernir y marc pasio isaf o 40% i chi ar gyfer pob modiwl a basiwyd gennych a bydd y Bwrdd Asesu yn caniatáu i chi symud ymlaen i'r Lefel astudio nesaf.

7.3 Os byddwch yn methu asesiad/au modiwl yn y flwyddyn yr ydych wedi ei hailadrodd, cewch un ymgais olaf i ailsefyll y modiwlau yr ydych wedi eu methu yn unol â Rheoliad UFY-D6 sy'n ymwneud ag ailsefyll.

## 8 Tynnu'n ôl oherwydd methiant academaidd

8.1 Fel arfer, bydd y Bwrdd Asesu yn eich tynnu o'u rhaglen yn yr amgylchiadau canlynol [i'w gwblhau unwaith y bydd y pwyntiau uchod wedi'u cadarnhau]:

- Os yw methiannau eich modiwl yn cynnwys neu'n fwy nag 80 credyd o asesiad a'ch bod yn dewis peidio ag ailadrodd y flwyddyn fel y nodir yn Rheoliad UFY-D7, neu lle na chaniateir blwyddyn ailadrodd.
- Os ydych wedi ailadrodd blwyddyn, wedi methu asesiad/au ac yna wedi disbyddu'r holl gyfleoedd digolledu a/neu gyfleoedd i ailsefyll i unioni'r methiant/methiannau hynny.
- Os ydych wedi methu â dangos ymgysylltiad boddhaol a/neu gynnydd ar eich rhaglen.

8.2 Os yw myfyriwr wedi cael ei dynnu'n ôl o raglen am fethiant academaidd neu resymau disgyblu, ni chaniateir iddo wneud cais arall am yr un rhaglen. Bydd unrhyw gais am raglenni amgen yn cael ei ystyried gan y Tîm Derbyn Canolog mewn ymgynghoriad â Chynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr ac Arweinydd y Rhaglen.

## 9 UFY-E: Symud ymlaen I'r lefel astudio nesaf

1. I symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf, mae angen i chi basio'r holl asesiadau a chyflawni 120 credyd Lefel 3 (oni bai bod gofynion gwahanol fel y nodir yn eich Manyleb Rhaglen).

## Rheoliadau ar gyder Graddau Israddedig a Graddau Sylfaen

### UG-A: Cyflwyniad

1. Dyma'r Rheoliadau sy'n benodol i Raddau Israddedig a Graddau Sylfaen y Brifysgol, a dylech ddarllen y rhain ochr yn ochr â'r Rheoliadau Academaidd Cyffredinol.

2. Pwrpas y Rheoliadau hyn yw nodi'r hyn y bydd yn rhaid i chi ei wneud i basio eich modiwlau, cael credydau, a symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf. Maent hefyd yn nodi'r camau a fydd yn dilyn os na fyddwch yn pasio'ch asesiadau.

3. Mae gan lawer o raglenni'r Brifysgol achrediad Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol. Mae hyn yn golygu bod rhaglen wedi'i chynllunio i fodloni gofynion proffesiynol a nodir gan y corff priodol, yn ogystal â gofynion academaidd y Brifysgol. Weithiau gall ymgorffori'r gofynion proffesiynol hyn yn nyluniad y rhaglen olygu bod angen i reoliadau penodol fod yn wahanol i'r rhai a nodir yn y Rheoliadau Cyffredinol hyn a/neu yn y Rheoliadau penodol hyn (y cyfeirir atynt yn aml fel rhanddirymiadau). Bydd gwybodaeth am unrhyw wahaniaethau sy'n berthnasol i'ch rhaglen yn cael ei chyhoeddi yn eich Manyleb Rhaglen.

4. Efallai y byddwn yn rhoi'r dyfarniadau Gradd Israddedig a Sylfaen canlynol ar ôl cwblhau astudiaethau yn llwyddiannusy:
    - Baglor yn y Celfyddydau gydag Anrhydedd – BA (Anrh)
    - Baglor Gwyddoniaeth gydag Anrhydedd – BSc (Anrh)
    - Baglor Peirianneg gydag Anrhydedd – BEng (Hons)
    - Baglor Nyrsio gydag Anrhydedd – BN (Hons)
    - Baglor mewn Theoleg gydag Anrhydedd – BTh (Hons)
    - Baglor mewn Diwinyddiaeth gydag Anrhydedd – BD (Hons)
    - Baglor yn y Gyfraith gydag Anrhydedd – LLB (Hons)
    - Baglor mewn Gweinyddu Busnes gydag Anrhydedd – BBA (Hons)
    - Gradd Sylfaen yn y Celfyddydau – FdA
    - Gradd Sylfaen Gwyddoniaeth – FdSc
    - Gradd Sylfaen Peirianneg – FdEng
    - Diploma Cenedlaethol Uwch – HND
    - Tystysgrif Genedlaethol Uwch – HNC

5. Gall y Brifysgol roi'r dyfarniadau canlynol os byddwch yn cwblhau'r astudiaethau gofynnol ac yn pasio'r asesiadau ond nad ydynt yn bodloni'r gofynion ar gyfer eich dyfarniad targed. Gelwir y rhain yn ddyfarniadau ymadael:
    - Baglor yn y Celfyddydau – BA
    - Baglor mewn Gwyddoniaeth – BSc
    - Baglor mewn Peirianneg – BEng
    - Diploma Addysg Uwch
    - Tystysgrif Addysg Uwch

## UG-B: Derbyn, Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol a Chydnabyddiaeth o Ddysgu o Brofiad Blaenorol

1. Bydd y gofynion y mae angen i chi eu bodloni i gael eich derbyn i raglen yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

2. Bydd y Brifysgol yn caniatáu i chi wneud cais am Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol (RPL) neu Gydnabyddiaeth o Ddysgu o Brofiad Blaenorol (RPEL) fel rhan o'ch mynediad i'r rhaglen. RPL ac RPEL yw'r ffordd y caiff eich profiad academaidd blaenorol neu brofiad dysgu arall ar lefel y rhaglen yr ydych yn gwneud cais amdani gael ei chydnabod a gall olygu na fydd angen i chi astudio modiwlau penodol ar eich rhaglen arfaethedig.

3. Bydd ceisiadau am gydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol yn cael eu hasesu yn unigol. Cyhoeddir rhagor o wybodaeth ym Mholisi’r Brifysgol ar gyfer Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol.

4. Ni fyddwn fel arfer yn eich eithrio o fwy na dwy ran o dair o'r rhaglen rydych yn bwriadu ei hastudio, a bydd y Fanyleb Rhaglen yn nodi'r lefel uchaf a ganiateir ar gyfer eich rhaglen.

## UG-C: Strwythur y Rhaglen

1. Bydd pob rhaglen **Gradd Anrhydedd Baglor** yn cynnwys:
    - 120 credyd ar Lefel 4 neu uwch.
    - 120 credyd ar Lefel 5 neu uwch.
    - 120 credyd ar Lefel 6 neu uwch.

2. Bydd pob rhaglen Gradd Anrhydedd Baglor gyda blwyddyn sylfaen yn cynnwys 120 credyd ar Lefel 3 yn ychwanegol at y credydau hynny a restrir yn UG-C1. Bydd pob rhaglen Gradd Anrhydedd Baglor gyda Blwyddyn mewn Lleoliad Diwydiannol yn cynnwys 120 credyd ychwanegol ar lefel 5 yn ychwanegol at y credydau hynny a restrir yn UG-C1.

3. Bydd pob rhaglen **Gradd Sylfaen** yn cynnwys:
   - 120 credyd ar Lefel 4 neu uwch.
   - 120 credyd ar Lefel 5 neu uwch.
4. Bydd pob **Gradd Baglor Gyffredin** (Baglor heb Anrhydedd) yn cynnwys:
   - 120 credyd ar Lefel 4 neu uwch.
   - 120 credyd ar Lefel 5 neu uwch.
   - 60 credyd ar Lefel 6 neu uwch.
5. Ar gyfer **Rhaglenni Gradd Israddedig dwy flynedd**, mae myfyrwyr yn cael eu gosod mewn dau floc:
   - Bloc A – cyfanswm o 180 credyd: 120 ar lefel 4 a 60 ar lefel 5.
   - Bloc B – cyfanswm o 180 credyd: 60 ar lefel 5 a 120 ar lefel 6.
6. Ar gyfer **Rhaglenni Gradd Israddedig dwy flynedd gyda Blwyddyn Sylfaen**, mae myfyrwyr yn cael eu gosod mewn tri bloc:
   - Bloc FY – 120 credyd ar lefel 3.
   - Bloc A – cyfanswm o 180 credyd: 120 ar lefel 4 a 60 ar lefel 5.
   - Bloc B – cyfanswm o 180 credyd: 60 ar lefel 5 a 120 ar lefel 6.
7. Bydd pob **HNC** yn cynnwys:
   - Leiaf 120 o gredydau ar Lefel 4.
   - Uchafswm o 150 credyd yn cynnwys 120 credyd ar Lefel 4 a 30 credyd ar Lefel 5.
8. Bydd pob **HND** yn cynnwys:
   - 120 o gredydau ar Lefel 4.
   - 120 o gredydau ar Lefel 5.

### UG-D: Asesu a Dyfarnu Credyd

1. Mae'n rhaid i chi roi cynnig ar yr holl gydrannau asesu yn eich holl fodiwlau.
2. Y marc isaf y bydd angen i chi ei gyflawni i basio modiwl fydd naill ai o'r canlynol:
   - 40% ar gyfer rhaglenni Gradd Israddedig a Graddau.
   - Gradd lwyddo (fel arfer dim ond pan fo asesiad yn seiliedig ar gymhwysedd).

3. Os yw modiwl yn cynnwys mwy nag un elfen asesu, y marc pasio cyffredinol fydd cyfartaledd pwysoledig yr holl farciau asesu yn y modiwl hwnnw. Bydd pwysoliadau asesu yn cael eu nodi ym manyleb y modiwl.

4. Byddwch yn derbyn credyd am y modiwl pan fyddwch yn cyrraedd y gofynion pasio.

5. Os byddwch yn cyrraedd marc pasio'r modiwl neu'n cael marc uwch, ni chaniateir i chi roi cynnig arall ar yr asesiad/au modiwl hwnnw eto gyda'r bwriad o wella'ch marc. Mae hyn yn cynnwys lle rydych wedi methu cydran asesu benodol o fewn y modiwl ond wedi pasio'r modiwl yn gyffredinoll.

6. Mae modiwlau BTEC a modiwlau sy'n rhan o raglen astudio Diploma/Tystysgrif Genedlaethol Uwch yn cynnwys elfennau â phwysoliadau asesu cymharol y cytunir arnynt adeg eu dilysu ac sydd wedi'u cynnwys ym manyleb y modiwl a llawlyfrau'r rhaglenni. Pan fo dwy elfen neu fwy yn cyfrannu at y radd gyffredinol y gall myfyriwr ei chyflawni mewn modiwl, cyfunir y graddau i roi gradd y modiwl. Yn ogystal, bydd pob modiwl yn cael ei raddio fel Llwyddo, Teilyngdod neu Ragoriaeth gyda'r ffiniau gradd diffiniedig canlynol:

| Ystod Marc | Dosbarthiad |
|---|---|
| 39% ac is | Methu |
| 40-59% | Llwyddo |
| 60-69% | Teilyngdod |
| 70% ac uwch | Rhagoriaeth |

**UG-E: Methu Modiwl**

1. Os na fyddwch yn cyflawni'r gofynion i basio modiwl neu fodiwlau, byddwch wedi methu.

2. Bydd angen mynd i'r afael â methiant er mwyn i chi allu symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf.

3. Mae sut y gellir mynd i'r afael â'r methiant yn dibynnu ar i ba raddau yr ydych wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu gofynnol, a'r hyn y mae'r Brifysgol angen i chi ei ddangos i brofi eich bod yn gymwys i symud ymlaen i'r Lefel astudio nesaf.

4. Mae'r adrannau canlynol o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r camau gweithredu amgen a fydd yn dilyn pan fyddwch yn methu modiwl.

**5 Digolllediad**

5.1 Os yw eich perfformiad asesu cyffredinol ar gyfer lefel rhaglen yn bodloni meini prawf penodol, bydd y Bwrdd Asesu yn digolledu methiant. Cyfeiriwch at Reoliad Cyffredinol E10 i gael manylion digolllediad.

## 6 Ailsefyll

6.1 Lle nad yw digolllediad yn berthnasol, efallai y bydd y Bwrdd Cynnydd/Dyfarnu yn caniatáu ichi ailsefyll yr asesiad(au) a fethwyd.

6.2 Yn achos Rhaglenni Gradd Israddedig a Graddau Sylfaen tair blynedd y Brifysgol Agored, byddwch yn gallu ailsefyll modiwl/au a fethwyd os nad yw'r methiannau'n fwy nag 80 credyd ar y Lefel astudiaeth honno. Os ydych wedi methu mwy na 80 credyd, bydd angen i chi ailadrodd y flwyddyn (gweler Rheoliad UG-E7).

6.3 Ar ôl pasio'r asesiad/au, byddwch yn cael y credyd am y modiwl hwnnw, yn cael y marc pasio isaf ac yn gallu symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf (gweler Rheoliad UG-F) neu gael eich ystyried ar gyfer y dyfarniad os ydych wedi cwblhau pob Lefel (gweler Rheoliad UG-G).

6.4 Os byddwch yn dewis peidio ag ailsefyll, bydd hyn yn dal i gyfrif fel eich ymgais gyntaf o ailsefyll a byddwch yn methu. Yr unig eithriad fydd os byddwch yn cyflwyno Amgylchiadau Esgusodol sydd wedyn yn cael eu cymeradwyo gan y Brifysgol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y [Weithdrefn ar gyfer Amgylchiadau Esgusodol](#).

6.5 Os na fyddwch yn llwyddo neu'n cymryd rhan yn y cynnig cyntaf i ailsefyll, caniateir un ymgais derfynol i chi ailsefyll oni bai bod y modiwl neu'r rhaglen wedi'i heithrio o'r broses hon, gallai hyn fod oherwydd gofyniad Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio (PSRB), er enghraifft. Bydd unrhyw eithriadau yn cael eu nodi yn eich manyleb rhaglen.

6.6 Bydd amseriad ailsefyll am y tro cyntaf neu'r eildro fel a ganlyn:

- Bydd dyddiadau ar gyfer ailsefyll (gan gynnwys dyddiadau ailgyflwyno) yn cael eu rhagnodi gan y Brifysgol.
- Mae gan y Bwrdd Modiwl hawl i ganiatáu i chi ailsefyll ar y cyfle nesaf sydd ar gael, a lle nad yw'n effeithio'n negyddol ar lwyth gwaith cyffredinol y Brifysgol.

6.7 Os ydych wedi cwblhau'r Lefel ac wedi cyflawni o leiaf 80 o'r 120 credyd sy'n ofynnol, gall y Bwrdd Asesu ganiatáu i chi symud ymlaen i'r Lefel astudio nesaf ac ailsefyll tra byddwch yn astudio ar y Lefel nesaf honno. Dim ond uchafswm o 40 credyd y caniateir i ymgymryd â nhw yn yr achos hwn. Ar gyfer rhaglenni mewn sefydliadau partner, gall nifer y credydau amrywio, gweler manyleb eich rhaglen am fwy o wybodaeth.

6.8 Bydd y broses hon ond yn digwydd os caiff ei chaniatáu ar gyfer eich rhaglen ac os nad yw'n effeithio'n negyddol ar eich llwyth gwaith cyffredinol yn y Brifysgol.

6.9 Ar gyfer **Rhaglenni Gradd Israddedig dwy flynedd**, bydd y cyfleoedd i ailsefyll fel a ganlyns:

- Ym Mloc A, bydd y Bwrdd Asesu yn caniatáu un cyfle i chi ailsefyll am fethu asesiad hyd at a chan gynnwys 30 credyd. Caniateir i chi symud ymlaen i Floc B ac ailsefyll Bloc A tra byddwch yn astudio ym Mloc B. Bydd angen i chi ailsefyll Bloc A yn ogystal â bodloni

gofynion Bloc B i gael eich ystyried ar gyfer y dyfarniad targed.

6.10 Ar gyfer **Rhaglenni Gradd Israddedig dwy flynedd gyda Blwyddyn Sylfaen**, bydd y cyfleoedd i ailsefyll fel a ganlyn:

- Ym Mloc FY, bydd y Bwrdd Asesu yn caniatáu un cyfle i chi ailsefyll am fethu asesiad hyd at a chan gynnwys 30 credyd. Caniateir i chi symud ymlaen i Floc A ac ailsefyll Bloc FY tra byddwch yn astudio ym Mloc A. Bydd angen i chi ailsefyll Bloc FY yn ogystal â phasio gofynion Bloc A i gael eich ystyried ar gyfer y dyfarniad targed.
- Ym Mloc A, bydd y Bwrdd Asesu yn caniatáu un cyfle i chi ailsefyll am fethu asesiad hyd at a chan gynnwys 30 credyd. Caniateir i chi symud ymlaen i Floc B ac ailsefyll Bloc A tra byddwch yn astudio ym Mloc B. Bydd angen i chi ailsefyll Bloc A yn ogystal â bodloni gofynion Bloc B i gael eich ystyried ar gyfer y dyfarniad targed.

6.11 Ar gyfer **Rhaglenni Gradd Israddedig dwy flynedd, gyda neu heb Flwyddyn Sylfaen**, os bydd eich methiannau yn y sesiwn gyntaf yn fwy na 30 credyd yn y Bloc rydych chi'n astudio ynddo, ac nad oes gennych unrhyw Amgylchiadau Esgusodol cymeradwy, bydd y Bwrdd Asesu yn gofyn i chi drosglwyddo i'r rhaglen israddedig tair blynedd. Os byddwch yn trosglwyddo i'r rhaglen tair blynedd, bydd y Rheoliadau sy'n ymwneud â'r rhaglen astudio honno, gan gynnwys nifer y cyfnodau ailsefyll a ganiateir, yn berthnasol.

## 7 Ailadrodd Blwyddyn (Rhaglenni Gradd Israddedig tair blynedd a Graddau Sylfaen yn unig)

7.1 Os bydd y gyfran o’r modiwl yr ydych wedi ei methu yn 80 neu fwy o’r credydau asesu ar gyfer y Lefel honno o astudiaeth, bydd gofyn i chi fel arfer ailadrodd y Lefel honno, gan gynnwys mynychu’r modiwl neu'r modiwlau rydych chi wedi'u methu.

7.2 Yn achos darpariaeth gan bartner sy'n gweithredu gyda thariff o 15 credyd, os yw’r gyfran o’r modiwl yr ydych wedi ei methu yn 90 neu fwy o’r credydau asesu ar gyfer y Lefel honno o astudiaeth, bydd gofyn i chi fel arfer ailadrodd y Lefel honno, gan gynnwys mynychu’r modiwl neu'r modiwlau rydych chi wedi'u methu.

7.3 Os byddwch yn pasio'r modiwl/au a fethwyd ar ôl ailadrodd blwyddyn, byddwch yn derbyn y marc pasio isaf o 40% ar gyfer pob modiwl yr ydych wedi eu pasio. Bydd y Bwrdd Asesu yn caniatáu i chi symud ymlaen i'r Lefel nesaf neu gael eich ystyried ar gyfer y dyfarniad os ydych wedi cwblhau pob Lefel astudio.

## 8 Tynnu'n ôl oherwydd methiant academaidd

8.1 Fel arfer, bydd y Bwrdd Asesu yn tynnu eich cofrestriad o'r rhaglen yn ôl o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Os yw’r gyfran o’r modiwl yr ydych wedi ei methu yn 80 neu fwy o’r credydau asesiad ar gyfer y Lefel honno o astudiaeth a'ch bod yn dewis peidio ag ailadrodd y flwyddyn fel y nodir yn Rheoliad UG-E7, neu lle na chaniateir i chi ailadrodd blwyddyn.
- Os ydych chi wedi ailadrodd blwyddyn yn flaenorol, wedi methu asesiad/au ac yna wedi

disbyddu'r holl gyfleoedd unioni a/neu ailsefyll i wneud iawn am y methiant/methiannau hynny.

- Os nad ydych yn bodloni gofynion pasio penodol a nodir yn eich manyleb rhaglen ac sy'n ofynnol gan y corff proffesiynol sy'n wahanol neu'n ychwanegol i'r rhai a nodir uchod.
- Os nad ydych wedi dangos ymgysylltiad a/neu ddilyniant boddhaol ar eich rhaglen.

8.2 Os yw myfyriwr wedi cael ei dynnu'n ôl o raglen am fethiant academaidd neu resymau disgyblu, ni chaniateir iddo wneud cais arall am yr un rhaglen. Bydd unrhyw gais am raglenni amgen yn cael ei ystyried gan y Tîm Derbyn Canolog mewn ymgynghoriad â Chynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr ac Arweinydd y Rhaglen.

## UG-F: Symud ymlaen i'r Lefel Nesaf o Astudiaeth

1. Os ydych yn astudio ar gyfer Gradd Baglor, byddwch angen symud ymlaen o Lefel 4 i 5 ac yn dilyn hynny o Lefel 5 i 6. Er mwyn symud ymlaen i'r Lefel nesaf o astudio disgwylir i chi gyflawni'r canlynol: marc cyfartalog sydd yn o leiaf 40% yn yr holl fodiwlau a asesir yn rhifyddol a gradd pasio yn unrhyw fodiwlau sy'n cynnwys gradd pasio/methu. Mae Rheoliad UG-E6.7 yn amlinellu swm y modiwlau a fethwyd y caniateir i chi eu dwyn ymlaen i'r Lefel nesaf o astudio.

2. Os ydych yn astudio ar gyfer Gradd Sylfaen, byddwch angen symud ymlaen o Lefel 4 i 5. Er mwyn symud ymlaen i'r Lefel nesaf o astudio disgwylir i chi gyflawni'r canlynol: marc cyfartalog sydd yn o leiaf 40% yn yr holl fodiwlau a asesir yn rhifyddol a gradd pasio yn unrhyw fodiwlau sy'n cynnwys gradd pasio/methu

**3 Ar gyfer Rhaglenni Gradd Israddedig dwy flynedd**

3.1 Bydd myfyrwyr yn cyrraedd man datblygiad ar ddiwedd Bloc A.

3.2 Ni all myfyriwr symud ymlaen yn ffurfiol i Floc B oni bai:

- Eu bod wedi pasio pob modiwl ar y cynnig cyntaf.
- Bod ganddynt farc cyfartalog sydd o leiaf 40%.

3.3 Fodd bynnag, mae myfyrwyr yn cael dechrau ar Floc B (y modiwlau lefel 5 sydd yn weddill) yn ddibynnol ar benderfyniad y Bwrdd Datblygiad ac yn ôl eu risg eu hunain. Mae hyn oherwydd na fydd y cyfarfod bwrdd wedi cael ei gynnal cyn i addysgu ar y modiwlau hyn ddechrau.

3.4 Mae'n rhaid i fyfyrwyr nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cynnydd ar ddiwedd Bloc A drosglwyddo i'r rhaglen safonol.

**4 Ar gyfer Rhaglenni Gradd Israddedig gyda Blwyddyn Sylfaen**

4.1 Ni all myfyriwr symud ymlaen yn ffurfiol i Floc A oni bai:

- Eu bod wedi pasio pob modiwl ar y cynnig cyntaf.
- Bod ganddynt farc cyfartalog o 40%.

4.2 Fodd bynnag, mae myfyrwyr yn cael dechrau ar Floc B (y modiwlau lefel 5 sydd yn weddill) yn ddibynnol ar benderfyniad y Bwrdd Cynnydd ac yn ôl eu risg eu hunain. Mae hyn oherwydd na fydd y cyfarfod bwrdd wedi cael ei gynnal cyn i addysgu ar y modiwlau hyn ddechrau.

4.3 Bydd myfyrwyr nad ydynt yn bodloni'r meini brawf cynnydd ar ddiwedd Bloc Blwyddyn Gyntaf drosglwyddo i'r rhaglen safonol.

## UG-G: Dyfarniadau

**1 Gradd Baglor gydag Anrhydedd**

1.1 Bydd y Bwrdd Asesu yn rhoi Gradd Baglor gydag Anrhydedd i chi os ydych wedi llwyddo ar bob lefel o'r rhaglen ac wedi cael y 360 credyd sy'n ofynnol ar gyfer y dyfarniad. Ar gyfer dyfarniadau Gradd Baglor gydag Anrhydedd a Blwyddyn Sylfaen, bydd angen i chi gael 480 credyd.

1.2 Bydd eich marc gradd terfynol yn cael ei weithio allan fel a ganlyn:

- Dim ond modiwlau a asesir yn rhifiadol fydd yn cyfrif tuag at y marc terfynol.
- Caiff marciau eu rowndio i'r rhif cyfan agosaf.
- Byddwn yn adolygu'r proffil marciau yr ydych wedi'i gael ar draws eich modiwlau ar gyfer Lefelau 5 a 6 trwy ddefnyddio Dull A a Dull B.
- Dull A - perfformiad cyson ar draws Lefelau 5 a 6:
    - Y marc cyfartalog a gawsoch ar draws y modiwlau (sy'n cynnwys 120 credyd) a gwblhawyd gennych ar gyfer Lefel 5.
    - Y marc cyfartalog a gawsoch ar draws y modiwlau (sy'n cynnwys 120 credyd) a gwblhawyd gennych ar gyfer Lefel 6.
    - Caiff y marc terfynol ei weithio allan trwy greu cyfartaledd cyffredinol o'r ddau farc hyn wedi'u pwysoli i gymhareb o 30 (lefel 5): 70 (lefel 6).
- Dull B - perfformiad cyson yn Lefel 6:
    - Y marc cyfartalog a gawsoch ar draws y modiwlau (sy'n cynnwys 120 credyd) a gwblhawyd gennych ar gyfer Lefel 6.
- Byddwn wedyn yn adolygu canlyniad Dull A a Dull B ac yn defnyddio'r uchaf o'r ddau farc ar gyfer eich dosbarthiad gradd i adlewyrchu eich perfformiad cryfaf.
- Bydd eich Manyleb Rhaglen yn nodi a oes unrhyw wahaniaethau o ran sut mae'r marc gradd yn cael ei weithio allan ar gyfer eich rhaglen chi.

1.3 Dyfernir dosbarthiadau gradd fel a ganlyn:

| Ystod y Marciau | Dosbarthiad |
|---|---|
| 39% neu is | Methu |
| 40-49% | Trydydd Dosbarth (3ydd) |
| 50-59% | Ail Ddosbarth, Adran Dau (2.2) |
| 60-69% | Ail Ddosbarth, Adran Un (2.1) |
| 70% ac uwch | Dosbarth Cyntaf (1af) |

1.4 Os yw'r marc terfynol o fewn 2% i'r dosbarthiad uchaf nesaf, ystyrir hyn yn achos ffiniol. Mae'r meini prawf ffiniol hwn hefyd yn gymwysadwy i ddyfarniadau/rhaglenni Atodol.

| Marc | Ffiniol |
|---|---|
| 38% ac uwch | Trydydd Dosbarth Ffiniol (3ydd) |
| 48% ac uwch | Ail Ddosbarth, Adran Dau Ffiniol (2.2) |
| 58% ac uwch | Ail Ddosbarth, Adran Un Ffiniol (2.1) |
| 68% ac uwch | Dosbarth Cyntaf Ffiniol (1af) |

1.5 Bydd y Bwrdd Asesu yn ystyried pob achos ffiniol i asesu a ydych yn gymwys i gael y dosbarthiad uchaf nesaf. Rhaid bodloni'r holl feini prawf canlynol er mwyn dyfarnu'r dosbarthiad uchaf nesaf:

- Mae o leiaf 50% o'r credydau ar Lefel 6 o fewn y dosbarthiad uwch.
- Llwyddwyd i basio'r holl fodiwlau Lefel 6 ar yr ymgais gyntaf.
- Nid oes unrhyw unioni wedi'i ddyfarnu ar gyfer unrhyw fodiwl Lefel 6
- Mae'r marc a gafwyd ar gyfer y traethawd hir neu ddarn o waith sylweddol cyfatebol ar Lefel 6 (fel y nodir ym manyleb y rhaglen ddilysedig) yn farc sydd o fewn y dosbarthiad uwch.

1.6 Ni fyddwch yn derbyn y dosbarthiad uwch os nad yw'ch proffil asesu yn bodloni'r holl feini prawf hyn.

## 2 Dyfarniadau Ymadael o Radd Baglor gydag Anrhydedd

2.1 Mae dyfarniadau ymadael ar gael lle nad ydych wedi bodloni gofynion y rhaglen Gradd Baglor gydag Anrhydedd, neu os nad ydych yn gallu cwblhau'r rhaglen, ond eich bod wedi bodloni'r gofynion i ennill cymhwyster lefel is.

2.2 Bydd y Bwrdd Asesu yn dyfarnu Gradd Baglor Gyffredin i chi os nad ydych wedi bodloni gofynion y Rhaglen Gradd Baglor gydag Anrhydedd y gwnaethoch gofrestru amdani. I gael rhagor o wybodaeth am y dyfarniad hwn, cyfeiriwch at y tabl dyfarniadau yn y rheoliadau cyffredinol.

2.3 Nid oes dosbarthiadau i ddyfarniadau ymadael o raglenni Gradd Baglor gydag Anrhydedd.

2.4 Bydd y Bwrdd Asesu yn dyfarnu Diploma mewn Addysg Uwch i chi os nad ydych wedi bodloni gofynion y rhaglen Gradd Baglor gydag Anrhydedd y cawsoch eich cofrestru ar ei chyfer

ond eich bod wedi pasio Lefelau 4 a 5 ac wedi ennill 240 credyd, gan gynnwys 80 credyd ar Lefel 5.

2.5 Bydd y Bwrdd Asesu yn dyfarnu Tystysgrif mewn Addysg Uwch i chi os nad ydych wedi bodloni gofynion y rhaglen Gradd Baglor gydag Anrhydedd y cawsoch eich cofrestru ar ei chyfer a ddim wedi bodloni'r gofynion ar gyfer y Diploma mewn Addysg Uwch ond eich bod wedi pasio Lefelau 4 ac wedi ennill 120 credyd.

### 3 Dyfarniad Gradd Sylfaen

3.1 Bydd y Bwrdd Asesu yn dyfarnu Gradd Sylfaen i chi os ydych wedi pasio pob lefel o'r rhaglen ac wedi cael y 240 credyd sy'n ofynnol ar gyfer y dyfarniad.

3.2 Bydd eich marc gradd terfynol yn cael ei weithio allan drwy gymryd cyfartaledd cyffredinol y marciau rydych wedi'u cyflawni yn y modiwlau ar draws Lefelau 4 a 5 eich rhaglen.

3.3 Caiff marciau eu rowndio i'r rhif cyfan agosaf.

3.4 Dyfernir dosbarthiadau gradd fel a ganlyn:

| Ystod y Marciau | Dosbarthiad |
|---|---|
| 39% ac is | Methu |
| 40-59% | Pasio |
| 60-69% | Teilyngdod |
| 70% ac uwch | Rhagoriaeth |

3.5 Os yw'ch marc gradd o fewn 2% o'r dosbarthiad uchaf nesaf, bydd hyn yn cael ei ystyried yn achos ffiniol.

| Marc | Ffiniol |
|---|---|
| 58% ac uwch | Teilyngdod Ffiniol |
| 68% ac uwch | Rhagoriaeth Ffiniol |

3.6 Bydd y Bwrdd Asesu yn ystyried pob achos ffiniol i asesu a ydych yn gymwys i gael y dosbarthiad uchaf nesaf. Rhaid bodloni'r holl feini prawf canlynol er mwyn dyfarnu'r dosbarthiad uchaf nesaf:

- Mae o leiaf 50% o'r credydau ar Lefel 5 o fewn y dosbarthiad uwch.
- Llwyddwyd i basio'r holl fodiwlau Lefel 5 ar yr ymgais gyntaf.
- Nid oes unrhyw addasiad wedi'i ddyfarnu am unrhyw fodiwl Lefel 5.

3.7 Ni fyddwch yn derbyn y dosbarthiad uwch os nad yw'ch proffil asesu yn bodloni'r holl feini prawf hyn.

## 4 Gwobrau Ymadael o Raglen Gradd Sylfaen

4.1 Mae dyfarniad Tystysgrif Addysg Uwch ar gael ar adeg ymadael lle nad ydych wedi bodloni gofynion y Radd Sylfaen, neu os nad ydych yn gallu cwblhau'r rhaglen, ond eich bod wedi bodloni'r gofynion ar gyfer y Dystysgrif.

4.2 Bydd y Bwrdd Asesu yn rhoi'r Dystysgrif Addysg Uwch i chi os nad ydych wedi bodloni gofynion y Radd Sylfaen ond eich bod wedi pasio'r holl asesiadau gofynnol ar Lefel 4 neu uwch ac wedi cyflawni'r 120 credyd cysylltiedig.

## 5 Dyfarniadau Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC) a Diploma Cenedlaethol Uwch (HND)

5.1 Bydd dosbarthiad y dyfarniad yn seiliedig yn unig ar ganlyniad modiwlau y dyfarnwyd gradd Pasio, Teilyngdod neu Ragoriaeth i'r myfyriwr ar eu cyfer.

5.2 Bydd gradd cymhwyster y dyfarniad yn cael ei bennu drwy system bwyntiau.

5.3 Gwneir penderfyniad ar radd cymhwyster HNC yn seiliedig ar berfformiad gorau'r ymgeisydd mewn modiwlau o'r rhaglen gyfan hyd at 80 credyd. Mae HNC yn cynnwys lleiafswm o 120 credyd ar Lefel 4 ac uchafswm o 150 credyd sy'n cynnwys 120 credyd ar Lefel 4 a 30 credyd ar Lefel 5.

5.4 Penderfynir ar radd y cymhwyster ar gyfer HND gan ddefnyddio perfformiad gorau'r ymgeisydd mewn modiwlau o Lefel 5 y rhaglen hyd at 80 credyd yn unig. Mae HND yn cynnwys 120 credyd ar Lefel 4 a 120 ar Lefel 5.

5.5 At ddibenion penderfynu ar radd y cymhwyster, dyfernir dim (sero) pwyntiau fesul credyd am radd basio, dyfernir 1 pwynt fesul credyd am radd teilyngdod a dyfernir 2 bwynt fesul credyd am radd rhagoriaeth.

5.6 Os yw cynnwys modiwlau lle mae'r ymgeisydd wedi cyflawni ei berfformiad gorau yn golygu bod cyfanswm y credydau yn fwy nag 80, yna bydd gwerth credyd y modiwlau gradd isaf o'r rhain yn cael ei leihau i'r gwerth sydd ei angen i gyflawni cyfanswm o 80 credyd.

5.7 Lle mae'r pwyntiau cyfanredol yn llai na 80, dyfernir gradd pasio.

5.8 Lle mae'r pwyntiau cyfanredol yn fwy na 80, ond yn llai na 160, dyfernir gradd teilyngdod.

5.9 Lle mae'r pwyntiau cyfanredol yn 160 neu fwy, dyfernir gradd ragoriaeth

## Rheoliadau ar gyfer Dyfarniadau Ôl-raddedig a Addysgir (Meistr, Meistr Ymchwil, Diploma Ôl- raddedig, Tystysgrif Ôl-raddedig)

**TPG-A: Cyflwyniad**

1. Dyma'r Rheoliadau sy'n benodol i Raglenni Ôl-raddedig a Addysgir y Brifysgol, a dylech eu darllen ochr yn ochr â'r Rheoliadau Academaidd Cyffredinol.

2. Pwrpas y Rheoliadau hyn yw nodi'r hyn y bydd rhaid i chi ei wneud i chi basio'ch modiwlau, cael credyd, symud o un lefel o astudiaeth i'r nesaf a bod yn gymwys i gael dyfarniad. Maent hefyd yn nodi'r camau a fydd yn dilyn os na fyddwch yn pasio'ch asesiadau.

3. Mae gan lawer o raglenni'r Brifysgol achrediad Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol. Mae hyn yn golygu bod rhaglen wedi'i chynllunio i fodloni gofynion proffesiynol a nodir gan y corff priodol, yn ogystal â gofynion academaidd y Brifysgol. Weithiau gall ymgorffori'r gofynion proffesiynol hyn yn nyluniad y rhaglen olygu bod angen i reoliadau penodol fod yn wahanol i'r rhai a nodir yn y Rheoliadau Cyffredinol a/neu yn y Rheoliadau penodol hyn (y cyfeirir atynt yn aml fel rhanddirymiadau). Bydd gwybodaeth am unrhyw wahaniaethau sy'n berthnasol i'ch rhaglen yn cael ei chyhoeddi yn eich Rhaglen.

4. Efallai y byddwn yn rhoi'r gwobrau ôl-raddedig canlynol ar ôl cwblhau'r astudiaeth yn llwyddiannus:
    - Meistr mewn Gwyddoniaeth – MSc
    - Meistr yn y Celfyddydau – MA
    - Meistr Gweinyddiaeth Busnes – MBA
    - Meistr Gweinyddiaeth Gyhoeddus – MPA
    - Meistr Iechyd y Cyhoedd – MPH
    - Meistr Ymchwil
    - Diploma Ôl-raddedig
    - Tystysgrif Ôl-raddedig

**TPG-B: Mynediad, Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol a Chydnabyddiaeth o Ddysgu drwy Brofiad Blaenorol**

1. Bydd y gofynion y mae angen i chi eu bodloni i gael eich derbyn i raglen yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

2. Bydd y Brifysgol yn caniatáu i chi wneud cais am Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol (RPL) neu Gydnabyddiaeth o Ddysgu drwy Brofiad Blaenorol (RPEL) fel rhan o'ch mynediad i'r rhaglen. RPL ac RPEL yw'r ffordd y caiff eich profiad academaidd blaenorol neu brofiad.

Dysgu arall ar lefel y rhaglen yr ydych yn gwneud cais iddi gael ei chydnabod a gall olygu eich bod wedi'ch eithrio rhag astudio modiwlau penodol ar eich rhaglen arfaethedig.

3. Bydd ceisiadau am gydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol yn cael eu hasesu yn unigol. Cyhoeddir rhagor o wybodaeth ym Mholisi Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol y Brifysgol.

**TPG-C: Strwythur y Rhaglen**

1. Bydd pob rhaglen **Meistr a Addysgir** yn cynnwys:
    - Modiwlau a addysgir, sef y rhan a addysgir o'ch rhaglen ac sy'n cynnwys modiwlau sy'n dod i gyfanswm lleiafswm o 120 credyd.
    - Modiwlau ymchwil, sy'n ddarn sylweddol o waith annibynnol sy'n dod i gyfanswm lleiafswm o 60 credyd. Bydd natur y gwaith hwn yn dibynnu ar y ddisgyblaeth rydych chi'n ei hastudio, a'r meini prawf a nodir yn y rhaglen berthnasol a'r fanyleb modiwlau.
2. Lle mae'r darn sylweddol o waith yn draethawd hir, ni fydd yn fwy na 20,000 o eiriau.
3. Pan fydd y darn sylweddol o waith ar ffurf perfformiad, arddangosfa, arteffact, sgôr, portffolio o weithiau ysgrifenedig neu debyg, bydd angen cynnwys sylwebaeth gyd-destunol ysgrifenedig ategol a fydd fel arfer oddeutu 5000-6000 o eiriau.
4. Bydd pob rhaglen **Meistr a Addysgir gydag Ymarfer Uwch** yn cynnwys:
    - Y bloc a addysgir, sef y rhan a addysgir o'ch Rhaglen ac sy'n cynnwys modiwlau sy'n dod i gyfanswm lleiafswm o 120 credyd.
    - Y bloc ymchwil a'r blociau Ymarfer Uwch, a fydd yn cynnwys 60 credyd o Ymarfer Uwch a 60 credyd o ddarn sylweddol o waith annibynnol, sy'n dod i gyfanswm o 120 credyd pellach.
    - Os na allwch gwblhau'r Ymarfer Uwch, neu os ydych, yn dilyn trafodaethau gyda'ch tîm Rhaglen, yn cael eich cynghori eich bod yn annhebygol o'i gwblhau, cewch gyfle fel arfer i drosglwyddo i'r rhaglen a ddyfernir heb Ymarfer Uwch.
5. Bydd pob cwrs **Meistr Ymchwil** yn cynnwys 180 credyd y bydd rhwng 80 a 120 credyd ohonynt yn elfen ymchwil a bydd y credydau sy'n weddill yn fodiwlau a addysgir mewn sgiliau uwch a gwybodaeth uwch.
6. Bydd pob **Diploma Ôl-raddedig** (ac eithrio Diploma Ôl-raddedig Nyrsio Cyn Cofrestru) yn cynnwys 120 credyd.
7. Bydd pob **Tystysgrif Ôl-raddedig** (ac eithrio'r Dystysgrif Addysg Ôl-raddedig) yn cynnwys 60 credyd.

## TPG-D: Asesu a Dyfarnu Credyd

1. Mae'n rhaid i chi roi cynnig ar yr holl gydrannau asesu yn eich holl fodiwlau.

2. Y marc isaf y bydd angen i chi ei gael ar gyfer pob modiwl fydd naill ai:
   - 40%.
   - Gradd lwyddo (fel arfer dim ond pan fo asesiad yn seiliedig ar gymhwysedd).

3. Os yw modiwl yn cynnwys mwy nag un elfen asesu, y marc pasio terfynol fydd cyfartaledd pwysoledig yr holl farciau asesu yn y modiwl hwnnw. Bydd pwysoliadau asesu yn cael eu nodi ym manyleb y modiwl.

4. Byddwch yn derbyn credyd am y modiwl pan fyddwch yn cyflawni'r gofynion ar gyfer pasio.

5. Os byddwch yn cyrraedd marc pasio'r modiwl neu'n cael marc uwch, ni chaniateir i chi roi cynnig arall ar yr asesiad/au modiwl hwnnw eto gyda'r bwriad o wella'ch marc. Mae hyn yn cynnwys lle rydych wedi methu cydran asesu benodol o fewn y modiwl ond wedi pasio'r modiwl yn gyffredinol.

## TPG-E: Methu Modiwl

1. Os na fyddwch yn cyflawni'r gofynion i basio modiwl neu fodiwlau, byddwch wedi methu.

2. Bydd angen mynd i'r afael â methiant er mwyn i chi allu cael eich ystyried ar gyfer y dyfarniad.

3. Mae sut y gellir mynd i'r afael â'r methiant yn dibynnu ar i ba raddau yr ydych wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu gofynnol, a'r hyn y mae'r Brifysgol angen i chi ei ddangos i brofi eich bod yn gymwys ar gyfer y dyfarniad.

4. Mae'r adrannau canlynol o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r camau gweithredu amgen a fydd yn dilyn pan fyddwch yn methu modiwl.

### 5 Digolllediad

5.1 Os yw eich perfformiad asesu cyffredinol ar gyfer lefel rhaglen yn bodloni meini prawf penodol, bydd y Bwrdd Asesu yn digolledu methiant. Cyfeiriwch at y Rheoliadau Cyffredinol am fanylion digolledu.

5.2 Bydd unrhyw ddyfarniad sydd â blociau ymchwil ac a addysgir yn cynnwys cymhwyso unrhyw ddigolledu hyfyw ar ddiwedd cwblhau'r ddau floc.

5.3 Ni digollediad addasiad am ddyfarniad Tystysgrif Ôl-raddedig.

## 6 Ailsefyll

6.1 Lle nad yw digollediad yn berthnasol neu os nad ydych yn bodloni'r meini prawf penodol, bydd y Bwrdd Asesu fel arfer yn caniatáu i chi ailsefyll yr asesiad/asesiadau a fethwyd.

6.2 Byddwch yn cael un cyfle arall i basio asesiad a fethwyd. Yr unig eithriadau yw:

- Os ydych ag Amgylchiadau Esgusodol a gymeradwywyd (gweler Rheoliad E3).
- Efallai y cewch un ymgais i ailsefyll mewn modiwl Ymarfer Uwch, ond bydd hyn yn cael ei drywyddu a'i gwblhau ochr yn ochr â'r traethawd hi.

6.3 Mae gan y Bwrdd Asesu hawl i ganiatáu i chi ailsefyll ar y cyfle nesaf sydd ar gael, a lle nad yw'n effeithio'n negyddol ar lwyth gwaith cyffredinol y Brifysgol.

6.4 Os byddwch yn dewis peidio ailsefyll, bydd y cyfle hwn yn dal i gyfrif fel eich unig gyfle i ailsefyll. Yr unig eithriad fydd os byddwch yn cyflwyno Amgylchiadau Esgusodol sydd wedyn yn cael eu cymeradwyo gan y Brifysgol.

6.5 Os byddwch yn pasio'r asesiad ar ôl ailsefyll, byddwch yn cael y credyd am y modiwl hwnnw ac yn cael y marc pasio isaaf.

6.6 Bydd dyddiadau ar gyfer ailsefyll (gan gynnwys dyddiadau ailgyflwyno) yn cael eu rhagnodi gan y Brifysgol.

## 7 Tynnu'n ôl oherwydd Methiant Academaidd

7.1 Fel arfer, bydd y Bwrdd Asesu yn tynnu ôl eich cofrestriad o'r rhaglen os na allwch basio'ch arholiadau ar adeg ailsefyll.

7.2 Os ydych yn astudio ar radd Meistr ac wedi methu â bodloni'r gofynion i basio, efallai y byddwch yn gymwys i gael dyfarniad ymadael os ydych wedi cyflawni'r nifer berthnasol o gredydau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn eich manyleb rhaglen.

7.3 Os ydych wedi methu â dangos ymgysylltiad boddhaol a/neu gynnydd ar eich rhaglen.

7.4 Os cawsoch eich tynnu'n ôl o raglen oherwydd methiant academaidd neu resymau disgyblu, ni chewch wneud cais arall am yr un rhaglen. Bydd unrhyw gais am raglenni amgen yn cael ei ystyried gan y Tîm Derbyniadau Canolog mewn ymgynghoriad â Chynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr ac Arweinydd y Rhaglen.

## TPG-F: Dyfarnu Tystysgrif Ôl-raddedig

1. Bydd y Bwrdd Asesu yn rhoi Tystysgrif Ôl-raddedig i chi os ydych wedi cyflawni 60 credyd.

2. Bydd eich marc terfynol yn cael ei weithio allan trwy gymryd y marc cyfartalog a gawsoch ar draws eich modiwlau. Dim ond modiwlau a asesir yn rhifiadol fydd yn cyfrif tuag at y marc terfynol.

3. Caiff marciau eu rowndio i'r rhif cyfan agosaf.

4. Dyfernir dosbarthiadau fel a ganlyn:

| Ystod y Marciau | Dosbarthiad |
|---|---|
| 39% ac is | Methu |
| 40-59% | Pasio |
| 60-69% | Teilyngdod |
| 70% ac uwch | Rhagoriaeth |

5. Os yw'r marc terfynol o fewn 2% i'r dosbarthiad uchaf nesaf, ystyrir hyn yn achos ffiniol. Mae'r meini prawf ffiniol hwn hefyd yn gymwysadwy i ddyfarniadau/rhaglenni Atodol.

| Marc | Ffiniol |
|---|---|
| 58% ac uwch | Teilyngdod Ffiniol |
| 68% ac uwch | Rhagoriaeth Ffiniol |

6. Bydd y Bwrdd Asesu yn ystyried pob achos ffiniol i asesu a ydych yn gymwys i gael y dosbarthiad uchaf nesaf. Rhaid bodloni'r holl feini prawf canlynol i'r dosbarthiad uchaf nesaf gael ei ddyfarnu:

    - Rydych wedi cyflawni dim llai na 58% yn gyffredinol i gael eich ystyried ar gyfer dosbarthiad teilyngdod a dim llai na 68% yn gyffredinol i gael eich ystyried ar gyfer dosbarthiad Rhagoriaeth.
    - Rydych wedi pasio'r holl fodiwlau ar yr ymgais gyntaf.
    - Nid oes unrhyw ddigolledMiad wedi'i ddyfarnu ar gyfer unrhyw fodiwl.

7. Ni fyddwch yn derbyn y dosbarthiad uwch os nad yw'ch proffil asesu yn bodloni'r holl feini prawf hyn.

### TPG-G: Dyfarniad Diploma Ôl-raddedig

1. Bydd y Bwrdd Asesu yn dyfarnu Diploma Ôl-raddedig i chi os ydych wedi pasio modiwlau sy'n cyflawni 120 credyd.

2. Bydd eich marc terfynol yn cael ei weithio allan trwy gymryd y marc cyfartalog a gawsoch ar draws eich modiwlau. Dim ond modiwlau a asesir yn rhifiadol fydd yn cyfrif tuag at y marc cyffredinol.

3. Caiff marciau eu rowndio i'r rhif cyfan agosaf.

4. Dyfernir dosbarthiadau fel a ganlyn:

| Ystod y Marciau | Dosbarthiad |
|---|---|
| 39% ac is | Methu |
| 40-59% | Pasio |
| 60-69% | Teilyngdod |
| 70% ac uwch | Rhagor aeth |

5. Os yw'r marc terfynol o fewn 2% i'r dosbarthiad uchaf nesaf, ystyrir hyn yn achos ffiniol. Mae'r meini prawf ffiniol hwn hefyd yn gymwysadwy i ddyfarniadau/rhaglenni Atodol.

| Marc | Ffiniol |
|---|---|
| 58% ac uwch | Teilyngdod Ffiniol |
| 68% ac uwch | Rhagoriaeth Ffiniol |

6. Bydd y Bwrdd Asesu yn ystyried pob achos ffiniol i asesu a ydych yn gymwys i gael y dosbarthiad uchaf nesaf. Rhaid bodloni'r holl feini prawf canlynol er mwyn dyfarnu'r dosbarthiad uchaf nesaf:
   - Rydych wedi cyflawni dim llai na 58% yn gyffredinol i gael eich ystyried ar gyfer dosbarthiad teilyngdod a dim llai na 6.8% yn gyffredinol i gael eich ystyried ar gyfer dosbarthiad Rhagoriaeth.
   - Rydych wedi pasio'r holl fodiwlau ar yr ymgais gyntaf.
   - Nid oes unrhyw ddigollediad wedi'i ddyfarnu ar gyfer unrhyw fodiwl.
   - Os yw'n berthnasol, mae'r marc a gyflawnwyd ar gyfer y traethawd hir neu'r modiwl(au) ymchwil sylweddol cyfatebol o fewn y dosbarthiad uwch.
   - Nid ydych wedi cael mwy na 60 credyd am y weithdrefn RPL/RPEL i gael eich derbyn ar y rhaglen.

7. Ni fyddwch yn derbyn y dosbarthiad uwch os nad yw'ch proffil asesu yn bodloni'r holl feini prawf hyn.

**TPG-H: Dyfarniad Gradd Meistr (gweler Rheoliad TPG-K am Ddyfarniad Meistr Ymchwil)**

1. Bydd y Bwrdd Asesu yn rhoi Gradd Meistr i chi os ydych wedi pasio'r bloc a addysgir a'r bloc ymchwil, gan gyflawni 180 credyd.

2. Bydd eich marc terfynol yn cael ei weithio allan trwy gymryd y marc cyfartalog a gawsoch ar draws eich modiwlau. Dim ond modiwlau a asesir yn rhifiadol fydd yn cyfrif tuag at y marc cyffredinol.

3. Caiff marciau eu rowndio i'r rhif cyfan agosaf.

4. Dyfernir dosbarthiadau fel a ganlyn:

| Ystod y Marciau | Dosbarthiad |
|---|---|
| 39% ac is | Methu |
| 40-59% | Pasio |
| Marc terfynol o 60-69% *a* dim llai na 55% yn y bloc a addysgir *a* dim llai na 60% yn y bloc ymchwil | Teilyngdod |
| Marc cyffredinol o 70% ac uwch *a* dim llai na 65% yn y bloc a addysgir *a* dim llai na 70% yn y bloc ymchwil | Rhagoriaeth |

5. Bydd cyrsiau nad oes ganddynt flociau a Addysgir ac Ymchwil penodol yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r cyfartaledd cyffredinol.

6. Os ydych chi'n bodloni'r gofynion a nodir uchod, ond bod unrhyw un o'r canlynol hefyd yn berthnasol, ni fyddwch chi'n gymwys i gael dyfarniad Teilyngdod na Rhagoriaeth:
   - Yn methu unrhyw asesiad yn y bloc a addysgir neu'r bloc ymchwil ar yr ymgais gyntaf.
   - Wedi cael mwy na 60 credyd am y weithdrefn RPL/RPEL i gael eich derbyn ar y rhaglen.

7. Os yw'r marc terfynol o fewn 2% i'r dosbarthiad uchaf nesaf, ystyrir hyn yn achos ffiniol. Mae'r meini prawf ffiniol hwn hefyd yn gymwysadwy i ddyfarniadau/rhaglenni Atodol.

| Marc | Ffiniol |
|---|---|
| 58% ac uwch | Teilyngdod Ffiniol |
| 68% ac uwch | Rhagoriaeth Ffiniol |

8. Bydd y Bwrdd Asesu yn ystyried pob achos ffiniol i asesu a ydych yn gymwys i gael y dosbarthiad uchaf nesaf. Rhaid bodloni'r holl feini prawf canlynol er mwyn dyfarnu'r dosbarthiad uchaf nesaf:
   - Rydych wedi cyflawni o leiaf 55% yn gyffredinol er mwyn i'r bloc a addysgir gael ei ystyried ar gyfer dosbarthiad Teilyngdod a dim llai na 65% yn gyffredinol er mwyn i'r bloc a addysgir gael ei ystyried ar gyfer dosbarthiad Rhagoriaeth.
   - Rhaid i farc cyffredinol y modiwl(au) bloc ymchwil fod yn ddosbarthiad uwch.
   - Rydych wedi pasio'r holl fodiwlau ar yr ymgais gyntaf.
   - Nid oes unrhyw ddigolledniad wedi'i ddyfarnu ar gyfer unrhyw fodiwl.
   - Nid ydych wedi cael mwy na 60 credyd ar gyfer y weithdrefn RPL/RPEL i gael eich derbyn ar y rhaglen.

9. Ni fyddwch yn derbyn y dosbarthiad uwch os nad yw'ch proffil asesu yn bodloni'r holl feini prawf hyn.

## TPG-I: Dyfarnu Gradd Meistr gydag Ymarfer Uwch

1. Bydd y Bwrdd Asesu yn dyfarnu Gradd Meistr i chi os ydych wedi llwyddo yn y bloc a addysgir, y bloc ymchwil, a'r bloc Ymarfer Uwch, gan gyflawni 240 credyd.

2. Bydd eich marc terfynol yn cael ei weithio allan trwy gymryd y marc cyfartalog a gawsoch ar draws eich modiwlau. Dim ond modiwlau a asesir yn rhifiadol fydd yn cyfrif tuag at y marc cyffredinol.

3. Caiff marciau eu rowndio i'r rhif cyfan agosaf.

4. Dyfernir dosbarthiadau fel a ganlyn:

| Ystod y Marciau | Dosbarthiad |
|---|---|
| 39% ac is | Methu |
| 40-59% | Pasio |
| Marc terfynol o 60-69% *a* dim llai na 55% yn y bloc a addysgir *a* dim llai na 60% yn y bloc ymchwil | Teilyngdod |
| Marc cyffredinol o 70% ac uwch *a* dim llai na 65% yn y bloc a addysgir *a* dim llai na70% yn y bloc ymchwil | Rhagoriaeth |

5. Bydd cyrsiau nad oes ganddynt flociau a Addysgir ac Ymchwil penodol yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r cyfartaledd cyffredinol.

6. Os ydych chi'n bodloni'r gofynion a nodir uchod, ni fyddwch chi'n gymwys i gael dyfarniad Teilyngdod na Rhagoriaeth os yw unrhyw un o'r canlynol hefyd yn berthnasol:
   - Yn methu unrhyw asesiad yn y bloc a addysgir neu'r bloc ymchwil ar yr ymgais gyntaf.
   - Wedi cael mwy na 60 credyd am y weithdrefn RPL/RPEL i gael eich derbyn ar y rhaglen.

7. Nid yw Ymarfer Uwch yn cyfrannu at y cyfrifiad i benderfynu ar ddosbarthiad y dyfarniad.

8. Os yw'r marc terfynol o fewn 2% i'r dosbarthiad uchaf nesaf, ystyrir hyn yn achos ffiniol. Mae'r meini prawf ffiniol hwn hefyd yn gymwysadwy i ddyfarniadau/rhaglenni Atodol.

| Marc | Ffiniol |
|---|---|
| 58% ac uwch | Teilyngdod Ffiniol |
| 68% ac uwch | Rhagoriaeth Ffiniol |

9. Bydd y Bwrdd Asesu yn ystyried pob achos ffiniol i asesu a ydych yn gymwys i gael y dosbarthiad uchaf nesaf. Rhaid bodloni'r holl feini prawf canlynol er mwyn i'r dosbarthiad uchaf nesaf gael ei ddyfarnu:
   - Rydych wedi cyflawni dim llai na 55% yn gyffredinol i gael eich ystyried ar gyfer dosbarthiad teilyngdod a dim llai na 65% yn gyffredinol i'w ystyried ar gyfer dosbarthiad Rhagoriaeth.

- Rhaid i farc traethawd hir fod yn y dosbarthiad uwch, ac eithrio lle nad yw’r rhaglen yn cynnwys modiwl ymchwil/traethawd hir amlwg.
- Rydych wedi pasio’r holl fodiwlau ar yr ymgais gyntaf.
- Nid oes unrhyw ddigolllediad wedi'i ddyfarnu ar gyfer unrhyw fodiwl.
- Nid ydych wedi cael mwy na 60 credyd ar gyfer y weithdrefn RPL/RPEL i gael eich derbyn ar y rhaglen.

10. Ni fyddwch yn derbyn y dosbarthiad uwch os nad yw'ch proffil asesu yn bodloni'r holl feini prawf hyn.

### TPG-J: Dyfarniadau Ymadael o Raglen Gradd Meistr

1. Mae dyfarniadau ymadael Tystysgrif Ôl-raddedig neu Ddiploma Ôl-raddedig ar gael lle nad ydych wedi bodloni gofynion y Radd Meistr, neu os nad ydych yn gallu cwblhau'r rhaglen, ond wedi bodloni'r gofynion y dyfarniadau ymadael.

2. Bydd y Bwrdd Asesu yn rhoi i chi:
   - Tystysgrif ôl-raddedig os nad ydych wedi bodloni gofynion y radd Meistr ond eich bod wedi pasio'r holl ofynion asesu ac wedi cyflawni'r isafswm cysylltiedig o 60 credyd (rhaid i o leiaf 40 credyd fod ar Lefel 7 a'r 20 credyd sy'n weddill fod ar Lefel 6).
   - Diploma Ôl-raddedig os nad ydych wedi bodloni gofynion y radd Meistr ond eich bod wedi pasio'r holl ofynion asesu ac wedi cyflawni'r isafswm cysylltiedig o 120 credyd (rhaid i o leiaf 90 credyd fod ar Lefel 7 a'r 30 credyd sy'n weddill fod ar Lefel 6).
   - Os ydych wedi cael marc terfynol o 60% neu uwch, yna byddwch yn gymwys i gael dyfarniad gyda Theilyngdod. Os byddwch yn cael marc terfynol o ddim llai na 70%, byddwch yn gymwys i gael Rhagoriaeth, os ydych wedi pasio'r holl fodiwlau ar yr ymgais gyntaf.

3. Nid yw meini prawf ffiniol yn gymwysadwy i’r math hwn o ddyfarniad.

### TPG-K: Dyfarniad Meistr Ymchwil

1. Bydd y Bwrdd Asesu yn dyfarnu Meistr Ymchwil i chi os ydych wedi llwyddo ym mhob modiwl ac wedi ennill 180 credyd.

2. Bydd eich marc terfynol yn cael ei weithio allan trwy gymryd y marc cyfartalog a gawsoch ar draws eich modiwlau. Dim ond modiwlau a asesir yn rhifiadol fydd yn cyfrif tuag at y marc terfynol.

3. Caiff marciau eu rowndio i'r rhif cyfan agosaf.

4. Dyfernir dosbarthiadau fel a ganlyn:

| Ystod y Marciau | Dosbarthiad |
|---|---|
| 39% ac is | Methu |
| 40-59% | Pasio |
| Marc terfynol o 60-69% (a dim llai na 60%mewn cydrannau ymchwil) | Teilyngdod |
| Marc cyffredinol o 70% ac uwch (a dim llai na 70% mewn cydrannau ymchwil) | Rhagoriaeth |

5. Bydd manyleb y rhaglen yn nodi pa fodiwlau sy'n cael eu hystyried yn fodiwlau a addysgir a pha rai sy'n rhan o'r cydrannau ymchwil. Os yw'r gydran ymchwil yn cynnwys mwy nag un modiwl, cyfrifir y marc ar gyfer yr elfen ymchwil gan ddefnyddio pwysoliad gwerthoedd y credydau modiwl ar gyfer pob cydran ymchwil.

6. Ni fyddwch yn gymwys i gael dyfarniad Teilyngdod na Rhagoriaeth os yw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:
   - Wedi methu unrhyw asesiad yn y rhaglen.
   - Wedi cael mwy na 60 credyd am y weithdrefn RPL/RPEL i'ch derbyn ar y rhaglen.

7. Nid yw meini prawf ffiniol yn gymwysadwy i'r math hwn o ddyfarniad.

### TPG-L: Dyfarniad Ymadael o Raglen Meistr Ymchwil

1. Mae dyfarniad ymadael Tystysgrif Ôl-raddedig ar gael lle nad ydych wedi bodloni gofynion y rhaglen Meistr Ymchwil, neu os nad ydych yn gallu cwblhau'r rhaglen, ond eich bod wedi bodloni'r gofynion ar gyfer y dyfarniad ymadael hwn.

2. Bydd y Bwrdd Asesu yn rhoi Tystysgrif Ôl-raddedig i chi os ydych yn bodloni'r gofynion pasio ac yn cyflawni'r 60 credyd Lefel 7 cysylltiedig.

3. Os ydych wedi cael marc terfynol o 60 neu uwch, yna byddwch yn gymwys i gael dyfarniad gyda Theilyngdod. Os byddwch yn cael marc cyffredinol o ddim llai na 70%, byddwch yn gymwys i gael marc Rhagoriaeth, os ydych wedi pasio'r holl fodiwlau ar yr ymgais gyntaf. Fodd bynnag, os dyfarnwyd credydau i chi drwy'r weithdrefn RPL/RPEL, ni fyddwch yn gymwys i dderbyn Teilyngdod neu Ragoriaeth yn y Dystysgrif Ôl-raddedig.

4. Nid yw meini prawf ffiniol yn gymwysadwy i'r math hwn o ddyfarniad.

## Rheoliadau ar gyfer y Dystysgrif Addysg Barhaus, Tystysgrif Broffesiynol a Thystysgrif Presenoldeb

### Cert-A: Cyflwyniad

1. Dyma'r rheoliadau sy'n benodol i Dystysgrif Addysg Barhaus, Tystysgrif Broffesiynol a Thystysgrif Bresenoldeb y Brifysgol.

2. Pwrpas y Rheoliadau hyn yw nodi'r hyn fydd yn ofynnol gennych chi.

### Cert-B: Mynediad

1. Bydd y gofynion y mae angen i chi eu bodloni i gael eich derbyn i raglen yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

### Cert-C: Strwythur y Rhaglen

1. Bydd pob Tystysgrif Bresenoldeb yn cynnwys presenoldeb mewn rhaglen gydnabyddedig sydd ddim yn cario credydau.

2. Bydd pob Tystysgrif Addysg Barhaus yn cynnwys un modiwl (au) neu fwy wedi'u dilysu ar lefel israddedig neu ôl-raddedig. Bydd eich trawsgrifiad yn rhoi manylion teitl, lefel a gwerth credyd pob modiwl a gwblhawyd yn llwyddiannus.

3. Bydd pob Tystysgrif Broffesiynol yn cynnwys cofrestru ar gyfer a chwblhau'n llwyddiannus fodiwlau penodol wedi'u dilysu o raglen astudio gymeradwy, sydd wedi'u cymeradwyo gan gorff proffesiynol fel un sy'n bodloni gofynion addysg a hyfforddiant penodol y corff proffesiynol hwnnw. Y nifer lleiaf o gredydau yw 40. Bydd Tystysgrif Broffesiynol Prifysgol Wrecsam hefyd yn derbyn trawsgrifiad yn rhestru teitl, lefel a gwerth credyd yr holl fodiwlau a gwblhawyd yn llwyddiannus fel rhan o'u rhaglen gymeradwy.

### Cert-D: Asesu a Dyfarnu Credyd

1. Os ydych wedi cofrestru ar fodiwl sy'n arwain at **Dystysgrif Presenoldeb**, bydd eich presenoldeb yn cael ei fonitro a bydd hynny'n penderfynu a fyddwch yn cael y Dystysgrif ai peidio. Bydd gofynion presenoldeb yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol. Ni fydd angen i chi ymgymryd ag unrhyw fath arall o asesiad. Ni fydd Tystysgrif Bresenoldeb yn arwain at gredydau neu ddyfarniad prifysgol.

2. Os ydych wedi cofrestru ar fodiwl/au sy'n arwain at Dystysgrif **Addysg Barhaus** neu'r **Dystysgrif Broffesiynol**, rhaid i chi basio'r asesiad/au ym mhob modiwl/au i ddangos eich bod wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu.

3. Bydd y marc lleiaf y mae angen i chi ei gyflawni i basio modiwl wedi'i nodi ym Manyleb y Rhaglen a bydd yn un o'r canlynol:

    - 40%.
    - Gradd lwyddo (fel arfer dim ond pan fo asesiad yn seiliedig ar gymhwysedd).

4. Os yw modiwl yn cynnwys mwy nag un elfen asesu, y marc pasio cyffredinol fydd cyfartaledd pwysoledig yr holl farciau asesu yn y modiwl hwnnw. Bydd pwysoliadau asesu yn cael eu nodi yn y Fanyleb Rhaglen/Modiwl.

5. Byddwch yn derbyn credyd am y modiwl pan fyddwch yn cyrraedd y gofynion pasio.

6. Os byddwch yn cyrraedd marc pasio'r modiwl neu'n cael marc uwch, ni chaniateir i chi ailsefyll yr asesiad/au modiwl hwnnw eto gyda golwg at wella eich marc.

### Cert-E: Methu Modiwl (Tystysgrif Addysg Barhaus a Thystysgrif Broffesiynol)

1. Os na fyddwch yn cyflawni'r gofynion i basio modiwl neu fodiwlau, byddwch yn methu.

2. Bydd angen mynd i'r afael â methiant er mwyn i chi gael eich ystyried ar gyfer y dyfarniad.

### 3 Digolledlad

3.1 Ni chaniateir digolledlad ar gyfer y dyfarniadau a nodir yn yr adran hon o'r rheoliadau.

### 4 Ailsefyll

4.1 Ni fydd Byrddau Asesu fel arfer yn caniatáu cyfleoedd ailsefyll ar gyfer y dyfarniadau a nodir yn yr adran hon o’r rheoliadau, oni bai eu bod yn cael eu cefnogi’n benodol gan y Bwrdd ar y cyd.

### 5 Tynnu'n ôl oherwydd methiant academaidd

5.1 Fel arfer, bydd y Bwrdd Asesu yn tynnu eich cofrestriad o'r rhaglen yn ôl o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Os byddwch wedi disbyddu’r holl gyfleoedd i ailsefyll i unioni’r methiant/methiannau.
- Os nad ydych yn bodloni gofynion pasio penodol a nodir yn eich manyleb rhaglen ac sy'n ofynnol gan y corff proffesiynol sy'n wahanol neu'n ychwanegol i'r rhai a nodir uchod.
- Os ydych wedi methu â dangos ymgysylltiad boddhaol a/neu gynnydd ar eich rhaglen.

5.2 Os yw myfyriwr wedi cael ei dynnu'n ôl o raglen am fethiant academaidd neu resymau disgyblu, ni chaniateir iddo wneud cais arall am yr un rhaglen. Bydd unrhyw gais am raglenni amgen yn cael ei ystyried gan y Tîm Derbyn Canolog mewn ymgynghoriad â Chynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr ac Arweinydd y Rhaglen.

## Cert-F: Gwobr (Tystysgrif Addysg Barhaus a Thystysgrif Broffesiynol)

### 1 Tystysgrif Addysg Barhaus

1.1 Bydd y Bwrdd Asesu yn rhoi dyfarniad Tystysgrif Addysg Barhaus i chi os ydych wedi pasio'r holl asesiadau a nodir yn y Fanyleb Rhaglen/Modiwl.

### 2 Tystysgrif Broffesiynol

2.1 Bydd y Bwrdd Asesu yn rhoi dyfarniad Tystysgrif Broffesiynol i chi os ydych wedi pasio pob asesiad ac wedi cael o leiaf 40 credyd sy'n ofynnol ar gyfer y dyfarniad.

## Rheoliadau ar gyfer Diplomâu Graddedig a Thystysgrifau Graddedig

### GDC-A: Cyflwyniad

1. Dyma'r Rheoliadau sy'n benodol i Ddiplomâu Graddedig a Thystysgrifau Graddedig y Brifysgol, a dylech eu darllen ochr yn ochr â'r Rheoliadau Academaidd Cyffredinol.

2. Pwrpas y Rheoliadau hyn yw nodi'r hyn fydd yn ofynnol i chi basio eich modiwlau, cael credyd a bod yn gymwys i gael dyfarniad. Maent hefyd yn nodi'r camau a fydd yn dilyn os na fyddwch yn pasio'ch asesiadau.

3. Mae gan lawer o raglenni'r Brifysgol achrediad Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol. Mae hyn yn golygu bod rhaglen wedi'i chynllunio i fodloni gofynion proffesiynol a nodir gan y corff priodol, yn ogystal â gofynion academaidd y Brifysgol. Weithiau gall ymgorffori'r gofynion proffesiynol hyn yn nyluniad y rhaglen olygu bod angen i reoliadau penodol fod yn wahanol i'r rhai a nodir yn y Rheoliadau Cyffredinol hyn a/neu yn y Rheoliadau penodol hyn (y cyfeirir atynt yn aml fel rhanddirymiadau neu lacio'r rheolau). Bydd gwybodaeth am unrhyw wahaniaethau sy'n berthnasol i'ch rhaglen yn cael ei chyhoeddi yn eich Manyleb Rhaglen a'ch Llawlyfr Rhaglen.

4. Efallai y byddwn yn rhoi'r dyfarniadau canlynol ar ôl cwblhau'r astudiaeth yn llwyddiannus:
    - Tystysgrif i Raddedigion
    - Diploma i Raddedigion

5. Efallai y byddwn yn rhoi'r dyfarniad canlynol os byddwch yn cwblhau'r astudiaeth ofynnol ac yn pasio'r asesiadau ond nid ydynt yn bodloni'r gofynion ar gyfer y Diploma i Raddedigion. Gelwir hyn yn ddyfarniad ymadael:
    - Tystysgrif i Raddedigion

### GDC-B: Derbyn, Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol a Chydnabyddiaeth o Ddysgu drwy Brofiad Blaenorol

1. Bydd y gofynion y mae angen i chi eu bodloni i gael eich derbyn i raglen yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

2. Bydd y Brifysgol yn caniatáu i chi wneud cais am Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol (RPL) neu Gydnabyddiaeth o Ddysgu drwy Brofiad Blaenorol (RPEL) fel rhan o'ch mynediad i'r rhaglen. RPL ac RPEL yw'r ffordd y caiff eich profiad academaidd blaenorol neu brofiad dysgu arall ar lefel y rhaglen yr ydych yn gwneud cais iddi gael ei gydnabod a gall olygu eich bod wedi'ch eithrio rhag astudio modiwlau penodol ar eich rhaglen arfaethedig.

3. Bydd ceisiadau am gydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol yn cael eu hasesu yn unigol. Cyhoeddir rhagor o wybodaeth ym Mholisi Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol y Brifysgol.

4. Y nifer uchaf o gredydau a dderbynnir i gyfrif tuag at ddyfarnu Tystysgrif i Raddedigion neu Ddiploma fydd:
   - Tystysgrif i Raddedigion: 30 credyd.
   - Diploma i Raddedigion: 60 credyd.

### GDC-C: Strwythur y Rhaglen

1. Bydd pob Tystysgrif i Raddedigion yn cynnwys 60 credyd ar Lefel 6.
2. Bydd pob Diploma i Raddedigion yn cynnwys 120 o gredydau ar Lefel 6.

### GDC-D: Asesu a Dyfarnu Credyd

1. Mae'n rhaid i chi roi cynnig ar yr holl gydrannau asesu yn eich holl fodiwlau.
2. Y marc lleiaf y mae angen i chi ei gyflawni i basio modiwl fydd un o'r canlynol:
   - 40%.
   - Gradd lwyddo (fel arfer dim ond pan fo asesiad yn seiliedig ar gymhwysedd).
3. Os yw modiwl yn cynnwys mwy nag un elfen asesu, y marc pasio cyffredinol fydd cyfartaledd pwysoledig yr holl farciau asesu yn y modiwl hwnnw. Bydd pwysoliadau asesu yn cael eu nodi ym manyleb y modiwl.
4. Byddwch yn derbyn credyd am y modiwl pan fyddwch yn cyrraedd y gofynion pasio.
5. Os byddwch yn cyrraedd marc pasio'r modiwl neu'n cael marc uwch, ni chaniateir i chi roi cynnig arall ar yr asesiad/au modiwl hwnnw gyda'r bwriad o wella'ch marc. Mae hyn yn cynnwys lle rydych wedi methu cydran asesu benodol o fewn y modiwl ond wedi pasio'r modiwl yn gyffredinol.

### GDC-E: Methu Modiwl

1. Os na fyddwch yn cyflawni'r gofynion i basio modiwl neu fodiwlau, byddwch yn methu.
2. Bydd angen mynd i'r afael â methiant er mwyn i chi gael eich ystyried ar gyfer y dyfarniad.
3. Mae sut y gellir mynd i'r afael â'r methiant yn dibynnu ar i ba raddau rydych wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu gofynnol o fewn y Lefel astudio honno, a'r hyn y mae'r Brifysgol angen i chi ei ddangos i brofi eich bod yn gymwys i gael y dyfarniad.

4. Mae'r adrannau canlynol o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r camau gweithredu amgen a fydd yn dilyn pan fyddwch yn methu modiwl.

**5 Digolllediad**

5.1 Ni chaniateir digolllediad ar gyfer y dyfarniadau a nodir yn yr adran hon o'r rheoliadau.

**6 Ailsefyll**

6.1 Efallai y bydd y Bwrdd Asesu yn caniatáu i chi ailsefyll yr asesiad/au a fethwyd fel y manylir isod.

6.2 Ar gyfer y **Dystysgrif i Raddedigion** byddwch yn gallu ailsefyll y modiwl/au a fethwyd ar y cyfle nesaf sydd ar gael.

6.3 Ar gyfer y **Diploma i Raddedigion** byddwch yn gallu ailsefyll modiwl/au a fethwyd ar y cyfle nesaf sydd ar gael.

6.4 Ar ôl pasio'r asesiad/au yn dilyn ailsefyll, byddwch yn cael y credyd am y modiwl hwnnw, yn cael y marc pasio isaf ac yn cael eich ystyried ar gyfer y dyfarniad (gweler Rheoliad GDC-E).

6.5 Os byddwch yn dewis peidio ailsefyll, bydd hyn yn dal i gyfrif fel eich cyfle cyntaf i ailsefyll. Yr unig eithriad i hyn fydd os byddwch yn cyflwyno Amgylchiadau Esgusodol sydd wedyn yn cael eu cymeradwyo gan y Brifysgol.

6.6 Os na fyddwch yn pasio ar ôl ailsefyll, caniateir un ymgais derfynol i chi ailsefyll oni bai bod y modiwl neu'r rhaglen wedi'i heithrio o'r broses hon. Bydd unrhyw eithriadau yn cael eu nodi yn eich Manyleb Rhaglen.

6.7 Bydd amseriad ailsefyll yn cael ei ragnodi gan y Brifysgol.

6.8 Os na fyddwch yn pasio ar ôl ailsefyll am yr eildro, neu os nad oes cyfle i ailsefyll am yr eildro ar gael ar eich rhaglen, byddwch wedi methu'r rhaglen.

**7 Tynnu'n ôl oherwydd methiant academaidd**

7.1 Fel arfer, bydd y Bwrdd Asesu yn tynnu eich cofrestriad o'r rhaglen yn ôl o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Os byddwch wedi disbyddu'r holl gyfleoedd i ailsefyll i unioni'r methiant/methiannau.
- Os nad ydych yn bodloni gofynion pasio penodol a nodir yn eich manyleb rhaglen ac sy'n ofynnol gan y corff proffesiynol sy'n wahanol neu'n ychwanegol i'r rhai a nodir uchod.
- Os ydych wedi methu â dangos ymgysylltiad boddhaol a/neu gynnydd ar eich rhaglen.
- Os ydych yn astudio ar gyfer Diploma i Raddedigion, efallai y byddwch yn gymwys am ddyfarniad ymadael (gweler Rheoliad GDC-E4).

7.2 Os yw myfyriwr wedi cael ei dynnu'n ôl o raglen am fethiant academaidd neu resymau disgyblu, ni chaniateir iddo wneud cais arall am yr un rhaglen. Bydd unrhyw gais am raglenni amgen yn cael ei ystyried gan y Tîm Derbyn Canolog mewn ymgynghoriad â Chynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr ac Arweinydd y Rhaglen.

## GDC-F: Dyfarniad

### 1 Tystysgrif i Raddedigion

1.1 Bydd y Bwrdd Asesu yn dyfarnu Tystysgrif i Raddedigion i chi os ydych wedi pasio'r holl asesiadau ac wedi cael y 60 credyd sy'n ofynnol ar gyfer y dyfarniad.

1.2 Dyfernir dosbarthiadau dyfarnu fel a ganlyn:

| Ystod y Marciau | Dosbarthiad |
|---|---|
| 39% ac is | Methu |
| 40-69% | Pasio |
| 70% ac uwch | Rhagoriaeth |

1.3 Nid oes unrhyw ddyfarniadau ymadael ar gael ar gyfer y Dystysgrif i Raddedigion.

### 2 Diploma I Raddedigion

2.1 Bydd y Bwrdd Asesu yn dyfarnu Diploma i Raddedigion i chi os ydych wedi llwyddo yn yr holl asesiadau ac wedi cael 120 o gredydau sy'n ofynnol ar gyfer y dyfarniad.

2.2 Dyfernir dosbarthiadau dyfarnu fel a ganlyn:

| Ystod y Marciau | Dosbarthiad |
|---|---|
| 39% ac is | Methu |
| 40-69% | Pasio |
| 70% ac uwch | Rhagoriaeth |

2.3 Mae dyfarniad ymadael ar gael lle nad ydych wedi bodloni gofynion y rhaglen Diploma i Raddedigion, neu os nad ydych yn gallu cwblhau'r rhaglen, ond wedi bodloni'r gofynion i ennill cymhwyster arall. Bydd y Bwrdd Asesu yn dyfarnu Tystysgrif i Raddedigion i chi os nad ydych wedi bodloni gofynion y rhaglen Diploma i Raddedigion y cawsoch eich cofrestru ar ei chyfer ond eich bod wedi cael o leiaf 60 credyd ac wedi pasio'r modiwlau perthnasol fel y nodir yn eich manyleb rhaglen.

## Rheoliadau ar gyfer Graddau Meistr Integredig

### IMD-A: Cyflwyniad

1. Dyma'r Rheoliadau sy'n benodol i Raglenni Graddau Meistr Integredig y Brifysgol, a dylech eu darllen ochr yn ochr â'r Rheoliadau Academaidd Cyffredinol.

2. Pwrpas y Rheoliadau hyn yw nodi'r hyn y bydd rhaid i chi ei wneud i chi basio'ch modiwlau, cael credyd, symud o un lefel o astudiaeth i'r nesaf a bod yn gymwys i gael dyfarniad. Maent hefyd yn nodi'r camau a fydd yn dilyn os na fyddwch yn pasio'ch asesiadau.

3. Mae gan lawer o raglenni'r Brifysgol achrediad Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol. Mae hyn yn golygu bod rhaglen wedi'i chynllunio i fodloni gofynion proffesiynol a nodir gan y corff priodol, yn ogystal â gofynion academaidd y Brifysgol. Weithiau gall ymgorffori'r gofynion proffesiynol hyn yn nyluniad y rhaglen olygu bod angen i reoliadau penodol fod yn wahanol i'r rhai a nodir yn y Rheoliadau Cyffredinol a/neu yn y Rheoliadau penodol hyn (y cyfeirir atynt yn aml fel rhanddirymiadau). Bydd gwybodaeth am unrhyw wahaniaethau sy'n berthnasol i'ch rhaglen yn cael ei chyhoeddi yn eich Rhaglen.

4. Efallai y byddwn yn rhoi'r dyfarniadau ôl-raddedig canlynol ar ôl cwblhau'r astudiaethau yn llwyddiannus:
    - Meistr Cyfrifiadura (MComp)
    - Meistr Peirianneg (MEng)
    - Meistr Celf Gain (MFA)
    - Meistr Dylunio (MDes)
    - Meistr Busnes (MBus)
    - Meistr Cyfrifeg a Chyllid (MAccFin)

### IMD-B: Derbyn, Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol a Chydnabyddiaeth o Ddysgu drwy Brofiad Blaenorol

1. Bydd y gofynion y mae angen i chi eu bodloni i gael eich derbyn i raglen yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

2. Mae rhaglen Meistr Integredig yn cynnwys astudio israddedig ar Lefelau 4, 5 a 6 ac yna astudio ôl-raddedig ar Lefel 7. Bydd cynnwys y rhaglen yn cael ei nodi ym manyleb y rhaglen.

3. Mae'r gofynion ar gyfer symud ymlaen i astudio Lefel 7 wedi'u nodi yn y Rheoliadau IMD-F.

4. Bydd ceisiadau am gydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol yn cael eu hasesu yn unigol. Cyhoeddir rhagor o wybodaeth ym Mholisi Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol y Brifysgol.

5. Ni fyddwn fel arfer yn eich eithrio rhag mwy na dwy ran o dair o'r rhaglen rydych yn bwriadu ei hastudio, a bydd y Fanyleb Rhaglen yn nodi'r lefel uchaf a ganiateir ar gyfer eich rhaglen.

### IMD-C: Strwythur Rhaglen

1. Bydd pob rhaglen Meistr Integredig yn cynnwys:
    - 120 credyd ar Lefel 4 neu uwch.
    - 120 credyd ar Lefel 5 neu uwch.
    - 120 credyd ar Lefel 6 neu uwch.
    - 120 credyd ar Lefel 7 neu uwch.

### IMD-D: Asesiad a Dyfarnu Credyd

1. Mae'n rhaid i chi roi cynnig ar yr holl gydrannau asesu yn eich holl fodiwlau.

2. Bydd y marc lleiaf y mae angen i chi ei gyflawni ar gyfer pob modiwl wedi'i nodi ym Manyleb y Rhaglen a bydd yn un o'r canlynol:
    - 40%.
    - Gradd lwyddo (fel arfer dim ond pan fo asesiad yn seiliedig ar gymhwysedd).

3. Os yw modiwl yn cynnwys mwy nag un elfen asesu, y marc pasio cyffredinol fydd cyfartaledd pwysoledig yr holl farciau asesu yn y modiwl hwnnw. Bydd pwysau asesu yn cael ei nodi ym manyleb y modiwl.

4. Byddwch yn derbyn credyd am y modiwl pan fyddwch yn cyrraedd y gofynion pasio.

5. Os byddwch yn cyrraedd marc pasio'r modiwl neu'n cael marc uwch, ni chaniateir i chi roi cynnig arall ar yr asesiad/au modiwl hwnnw gyda'r bwriad o wella'ch marc. Mae hyn yn cynnwys lle rydych wedi methu cydran asesu benodol o fewn y modiwl ond wedi pasio'r modiwl yn gyffredinol.

### IMD-E: Methu Modiwl

1. Os na fyddwch yn cyflawni'r gofynion i basio modiwl neu fodiwlau, byddwch yn methu.

2. Bydd angen mynd i'r afael â methiant er mwyn i chi gael eich ystyried ar gyfer y dyfarniad.

3. Mae sut y gellir mynd i'r afael â'r methiant yn dibynnu ar i ba raddau rydych wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu gofynnol o fewn y Lefel astudio honno, a'r hyn y mae'r Brifysgol angen i chi ei ddangos i brofi eich bod yn gymwys i gael y dyfarniad.

4. Mae'r adrannau canlynol o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r camau gweithredu amgen a fydd yn dilyn pan fyddwch yn methu modiwl.

**5 Digolledïad**

5.1 Os yw eich perfformiad asesu cyffredinol ar gyfer lefel rhaglen yn bodloni meini prawf penodol, bydd y Bwrdd Asesu yn digolledu methiant. Cyfeiriwch at y Rheoliadau Cyffredinol am fanylion mewn perthynas â digolledu.

5.2 Bydd unrhyw ddyfarniad sydd â blociau ymchwil ac a addysgir, o fewn unrhyw lefel astudiaeth benodol unigol, yn cynnwys cymhwyso unrhyw ddigolledu hyfyw ar ddiwedd cwblhau'r ddau floc.

**6 Ailsefyll**

6.1 Lle nad yw digolledu'n berthnasol neu os nad ydych yn bodloni'r meini prawf penodol, bydd y Bwrdd Asesu fel arfer yn caniatáu i chi ailsefyll yr asesiad/asesiadau a fethwyd.

6.2 Bydd cyfleoedd ailsefyll ar gael fel a ganlyn:

- Ar Lefelau 4 a 5, byddwch yn gallu ailsefyll modiwlau a fethwyd os nad yw'r modiwlau a fethwyd yn fwy nag 80 credyd o asesiad modiwl cyffredinol ar gyfer y lefel astudio honno. Os na fyddwch yn pasio ar ôl ailsefyll y tro hwn, bydd gennych un cyfle arall i ailsefyll y modiwlau a fethwyd.
- Ar Lefel 6, byddwch yn gallu ailsefyll modiwlau a fethwyd os nad yw'r modiwlau a fethwyd yn fwy nag 80 credyd o asesiad modiwl cyffredinol ar gyfer y lefel astudio honno. Dim ond un ymgais arall fydd yn cael ei chaniatáu. Os na fyddwch yn pasio'r tro hwn, byddwch yn gymwys i ailsefyll eto os byddwch yn trosglwyddo i'r llwybr Gradd Anrhydedd.
- Ar Lefel 7, caniateir un cyfle i ailsefyll ar gyfer pob un o'r modiwlau a fethwyd.

6.3 Mae gan y Bwrdd Asesu yr hawl i ganiatáu i chi ailsefyll ar y cyfle nesaf sydd ar gael, a lle nad yw'n effeithio'n negyddol ar lwyth gwaith cyffredinol y Brifysgol.

6.4 Os byddwch yn dewis peidio ailsefyll, bydd hyn yn dal i gyfrif fel eich un cyfle i ailsefyll. Yr unig eithriad fydd os byddwch yn cyflwyno Amgylchiadau Esgusodol sydd wedyn yn cael eu cymeradwyo gan y Brifysgol.

6.5 Bydd amseriad y cyfle cyntaf neu'r ail gyfle i ailsefyll fel a ganlyn:

- Bydd dyddiadau ar gyfer ailsefyll (gan gynnwys dyddiadau ailgyflwyno) yn cael eu rhagnodi gan y Brifysgol.

- Mae gan y Bwrdd Asesu yr hawl i ganiatáu i chi ailsefyll ar y cyfle nesaf sydd ar gael, a lle nad yw'n effeithio'n negyddol ar lwyth gwaith cyffredinol y Brifysgol.

**7 Ailadrodd Blwyddyn**

7.1 Os yw modiwlau a fethwyd yn cyfrif am 80 neu fwy o gredydau asesu ar gyfer y Lefel astudio honno, bydd gofyn i chi fel arfer ailadrodd y Lefel honno, gan gynnwys presenoldeb yn y modiwl neu'r modiwlau rydych wedi'u methu.

7.2 Os byddwch yn pasio'r modiwl/au a fethwyd ar ôl ailadrodd blwyddyn, byddwch yn derbyn y marc pasio isaf o 40% ar gyfer pob modiwl a basiwyd. Bydd y Bwrdd Asesu yn caniatáu i chi symud ymlaen i'r Lefel nesaf neu gael eich ystyried ar gyfer y dyfarniad os ydych wedi cwblhau pob Lefel astudiaeth.

7.3 Os byddwch yn methu asesiad/au modiwl ar ôl ailadrodd blwyddyn, caniateir un ymgais derfynol i chi eu hailsefyll yn unol â rheoliad IMD-E6.

7.4 Er mwyn symud ymlaen i gam Meistr Integredig y dyfarniad, rhaid i chi gwblhau'r 120 credyd Lefel 6 yn llwyddiannus o fewn dau ymgais fesul modiwl. Os cewch eich cyfeirio mewn modiwl ddwywaith gallwch gymryd trydedd ymgais, ond, os gwnewch hynny, dim ond gyda dyfarniad israddedig y gallwch adael ac ni allwch barhau i gydran Meistr Integredig y dyfarniad (Lefel 7).

7.5 Fel arfer, ni chaniateir i chi gymryd ailadrodd blwyddyn ar Lefel 6. Os yw'n ofynnol i chi wneud hynny o ganlyniad i atgyfeiriad, dim ond gyda dyfarniad israddedig y caniateir i chi ymadaeld.

**8 Tynnu'n ôl oherwydd Methiant Academaidd**

8.1 Fel arfer, bydd y Bwrdd Asesu yn tynnu eich cofrestriad o'r rhaglen yn ôl o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Os yw’r modiwlau yr ydych wedi eu methu’n cyfrif am 80 credyd neu fwy o asesiad ar gyfer y Lefel astudio honno a'ch bod yn dewis peidio ag ailadrodd y flwyddyn fel y nodir yn Rheoliad IMD-E6.5, neu lle na chaniateir i chi ailadrodd y flwyddyn.
- Os ydych wedi ailadrodd blwyddyn, wedi methu asesiad/au ac wedi disbyddu’r holl gyfleoedd unioni a/neu gyfleoedd i ailsefyll i unioni’r methiant/methiannau hynny.
- Os nad ydych yn bodloni gofynion pasio penodol a nodir yn eich manyleb rhaglen ac sy'n ofynnol gan y corff proffesiynol sy'n wahanol neu'n ychwanegol i'r rhai a nodir uchod.
- Os ydych wedi methu â dangos ymgysylltiad boddhaol a/neu gynnydd ar eich rhaglen.

8.2 Os yw myfyriwr wedi cael ei dynnu'n ôl o raglen am fethiant academaidd neu resymau disgyblu, ni chaniateir iddo wneud cais arall am yr un rhaglen. Bydd unrhyw gais am raglenni amgen yn cael ei ystyried gan y Tîm Derbyn Canolog mewn ymgynghoriad â Chynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr ac Arweinydd y Rhaglen.

### IMD-F: Symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf

1. Bydd angen i chi symud ymlaen o Lefel 4 i 5, o Lefel 5 i 6 ac o Lefel 6 i 7. I symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf, fel arfer bydd angen i chi gyflawni'r canlynol:
    - Cwblhau 120 credyd Lefel 4 gyda sgôr gyfartalog o ddim llai na 40% ar gyfer y lefel.
    - Cwblhau 120 credyd Lefel 5 gyda sgôr gyfartalog o ddim llai na 55% ar gyfer y lefel.
    - Cwblhau 120 o gredydau Lefel 6 gyda sgôr gyfartalog o ddim llai na 55% ar gyfer y lefel.
    - Bodloni unrhyw ofynion ychwanegol a nodir yn eich manyleb rhaglen.

### IMD-G: Dyfarniad Gradd Meistr Integredig

1. Bydd y Bwrdd Asesu yn dyfarnu Gradd Meistr Integredig i chi os ydych wedi pasio pob lefel o'r rhaglen ac wedi cael y 480 credyd sy'n ofynnol ar gyfer y dyfarniad.

2. Rhaid cyflwyno a phasio'r traethawd hir neu'r darn sylweddol cyfatebol o waith er mwyn ennill gradd Meistr ddosbarthedig

3. Bydd eich marc gradd terfynol yn cael ei weithio allan fel a ganlyn:
    - Dim ond modiwlau a asesir yn rhifiadol fydd yn cyfrif tuag at y marc terfynol.
    - Caiff marciau eu rowndio i'r rhif cyfan agosaf.
    - Byddwn yn adolygu'r proffil marciau yr ydych wedi'i gael ar draws eich modiwlau ar gyfer Lefelau 6 a 7 trwy ddefnyddio Dull A a Dull B.
    - *Dull A* - perfformiad cyson ar draws Lefelau 6 a 7:
        - Y marc cyfartalog a gawsoch ar draws y modiwlau (sy'n cynnwys 120 credyd) a gwblhawyd gennych ar gyfer Lefel 6.
        - Y marc cyfartalog a gawsoch ar draws y modiwlau (sy'n cynnwys 120 credyd) a gwblhawyd gennych ar gyfer Lefel 7.
        - Caiff y marc terfynol ei weithio allan trwy greu cyfartaledd cyffredinol o'r ddau farc hyn wedi'u pwysoli yn ôl cymhareb o 30 (Lefel 6): 70 (lefel 7).
    - Dull B - y marciau cyfartalog ar gyfer y 120 credyd ar Lefel 7.
    - Yna byddwn yn adolygu canlyniad Dull A a Dull B ac yn defnyddio'r uchaf o'r ddau farc ar gyfer eich dosbarthiad gradd i adlewyrchu eich perfformiad cryfaf.
    - Bydd eich Manyleb Rhaglen yn nodi a oes unrhyw wahaniaethau o ran sut mae'r marc gradd yn cael ei weithio allan ar gyfer eich rhaglen.

4. Dyfernir dosbarthiadau gradd fel a ganlyn:

| Ystod y Marciau | Dosbarthiad |
|---|---|
| 39% ac is | Methu |
| 40-49% | Trydydd Dosbarth (3ydd) |
| 50-59% | Ail Ddosbarth, Adran Dau (2.2) |
| 60-69% | Ail Ddosbarth Adran Un (2.1) |
| 70% ac uwch | Dosbarth Cyntaf (1af) |

5. Os yw'ch marc gradd o fewn 2% o'r dosbarthiad uchaf nesaf, bydd hyn yn cael ei ystyried yn achos ffiniol.

| Marc | Ffiniol |
|---|---|
| 38% ac uwch | Trydydd Dosbarth Ffiniol (3rd) |
| 48% ac uwch | Ail Ddosbarth, Adran Dau Ffiniol (2.2) |
| 58% ac uwch | Ail Ddosbarth Adran Un Ffiniol (2.1) |
| 68% ac uwch | Dosbarth Cyntaf Ffiniol (1af) |

6. Bydd y Bwrdd Asesu yn ystyried pob achos ffiniol i asesu a ydych yn gymwys i gael y dosbarthiad uchaf nesaf. Rhaid bodloni'r holl feini prawf canlynol er mwyn dyfarnu'r dosbarthiad uchaf nesaf:

   - Mae o leiaf 50% o'r credydau sy'n cyfrannu at y marc dosbarthu gradd yn dod o Lefel 7.
   - Llwyddwyd i basio'r holl fodiwlau Lefel 7 ar yr ymgais gyntaf.
   - Ni ellir dyfarnu Dosbarth 1af i'r rheini sydd wedi cael eu cyfeirio ac sydd wedi cael cynnig pellach mewn unrhyw fodiwl.
   - Nid oes unrhyw ddigolllediad wedi'i ddyfarnu ar gyfer unrhyw fodiwl Lefel 7.
   - Mae'r marc a gyflawnwyd ar gyfer y traethawd hir Lefel 7 neu ddarn sylweddol cyfatebol o waith o fewn y dosbarthiad uwc.

7. Ni fyddwch yn derbyn y dosbarthiad uwch os nad yw'ch proffil asesu yn bodloni'r holl feini prawf hyn.

### 8 Gwobrau Ymadael o Raglen Gradd Meistr Integredig

8.1 Mae dyfarniadau ymadael ar gael lle nad ydych wedi bodloni gofynion y rhaglen Gradd Meistr Integredig, neu os nad ydych yn gallu cwblhau'r rhaglen, ond wedi bodloni'r gofynion i ennill cymhwyster arall.

8.2 Bydd y Bwrdd Asesu yn dyfarnu Gradd Baglor gydag Anrhydedd i chi os nad ydych wedi bodloni gofynion y Rhaglen Gradd Meistr Integredig y cawsoch eich cofrestru ar ei chyfer ond eich bod wedi cael y 360 credyd sy'n ofynnol ar gyfer y dyfarniad Baglor, gan gynnwys 60 credyd ar Lefel 6.

8.3 Bydd y Bwrdd Asesu yn dyfarnu Gradd Baglor Gyffredin i chi os nad ydych wedi bodloni gofynion y Rhaglen Anrhydedd Gradd Baglor y gwnaethoch chi gofrestru amdani. Am fwy o

wybodaeth am y dyfarniad hwn, cyfeiriwch at y tabl dyfarniadau yn y rheoliadau cyffredinol.

8.4 Nid oes gan raddau cyffredin ddosbarthiadau.

8.5 Bydd y Bwrdd Asesu yn dyfarnu Diploma mewn Addysg Uwch i chi os nad ydych wedi bodloni gofynion y rhaglen Anrhydedd Gradd Baglor ond eich bod wedi pasio Lefelau 4 a 5 ac wedi ennill 240 credyd, gan gynnwys 80 credyd ar Lefel 5.

8.6 Bydd y Bwrdd Asesu yn dyfarnu Tystysgrif mewn Addysg Uwch i chi os nad ydych wedi bodloni gofynion y Diploma mewn Addysg Uwch ond eich bod wedi pasio Lefelau 4 ac wedi ennill 120 credyd, gan gynnwys 80 credyd ar Lefel 44.

## Rheoliadau ar gyfer dyfarniadau Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET)

### PCET-A: Cyflwyniad

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn benodol ar gyfer Tystysgrif Addysg (PCET), Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion (PCET) a Thystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg (PCET) y Brifysgol a dylech ddarllen y rhain ochr yn ochr â'r Rheoliadau Academaidd Cyffredinol.

2. Pwrpas y Rheoliadau hyn yw amlinellu'r hyn sy'n ofynnol ohonoch er mwyn pasio eich modiwlau, sicrhau credyd, symud ymlaen rhwng lefelau astudio a bod yn gymwys ar gyfer dyfarniad. Maent hefyd yn amlinellu'r camau gweithredu fydd yn dilyn os na fyddwch yn pasio eich asesiadau.

3. Mae gan nifer o raglenni'r Brifysgol achrediad Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol. Mae hyn yn golygu bod rhaglen yn cael ei llunio er mwyn bodloni gofynion proffesiynol a amlinellir gan y corff perthnasol, yn ogystal â gofynion academaidd y Brifysgol. Gall ymgorffori'r gofynion proffesiynol hyn i gynllun y rhaglen weithiau olygu bod angen i reoliadau penodol fod yn wahanol i'r rhai a amlinellir yn y Rheoliadau Cyffredinol a/neu yn y Rheoliadau penodol hyn (y cyfeirir atynt yn aml fel rhan-ddirymiadau). Bydd gwybodaeth ynghylch unrhyw wahaniaethau sy'n berthnasol i'ch rhaglen yn cael ei chyhoeddi yn eich Rhaglen

4. Gallwn gyflwyno'r marciau canlynol wedi i'r rhaglen astudio gael ei chwblhau'n llwyddiannus:
    - Tystysgrif Addysg - Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol (PCET).
    - Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion - Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol (PCET).
    - Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig - Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol (PCET).

### PCET-B: Myfyrwyr sy'n Derbyn Cydnabyddiaeth am Ddysgu Blaenorol a Dysgu Drwy Brofiad Blaenorol

1. Bydd y gofynion y byddwch angen eu bodloni er mwyn cael eich derbyn ar raglen yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

2. Bydd y Brifysgol yn caniatáu i chi wneud cais am Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol (RLP) neu Gydnabyddiaeth o Ddysgu Drwy Brofiad Blaenorol (RPEL) fel rhan o gael eich derbyn ar y rhaglen. RPL a RPEL yw'r ffordd y mae eich profiad academaidd blaenoro neu brofiad dysgu arall ar lefel y rhaglen yr ydych yn ymgeisio amdani yn cael ei gydnabod a gall olygu eich bod wedi'ch eithrio o astudio rhai modiwlau penodol ar y rhaglen rydych yn bwriadu ei hastudio.

3. Bydd ceisiadau ar gyfer cydnabyddiaeth i ddysgu blaenorol yn cael eu hasesu yn unigol. Cyhoeddir gwybodaeth bellach yn y Polisi Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol.

## PCET-C: Strwythur y Rhaglen

1. Mae'r ***Dystysgrif Addysg*** yn cynnwys 120 credyd (60 credyd ar lefel 4 a 60 Credyd lefel 5), ynghyd ag isafswm o 100 awr o hyfforddiant ymarferol proffesiynol.

2. Mae'r ***Dystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion*** yn cynnwys 120 credyd lefel 6, ynghyd ag isafswm o 100 awr o hyfforddiant ymarferol proffesiynol.

3. Mae'r ***Dystysgrif Addysg Ôl-raddedig*** yn cynnwys 120 credyd (60 credyd ar lefel 6 a 60 credyd lefel 7), ynghyd ag isafswm o 100 awr o hyfforddiant ymarferol proffesiynol.

## PCET-D: Asesu a Dyfarnu Credyd

1. Mae'n rhaid i chi roi cynnig ar yr holl gydrannau asesu yn eich holl fodiwlau.

2. Yr isafswm marc sydd angen i chi ei gyflawni ar gyfer bob modiwl fydd naill ai:
   - 40%.
   - Gradd pasio (sydd fel arfer ond yn ei le lle mae asesiad yn seiliedig ar gymhwysedd).

3. Os yw modiwl yn cynnwys mwy nag un elfen asesu, y marc pasio terfynol fydd y cyfartaledd wedi'i bwysoli o'r holl farciau asesu yn y modiwl hwnnw. Bydd pwysoli asesiadau yn cael eu hamlinellu yn y Fanyleb Modiwlau.

4. Bydd credyd yn cael ei ddyfarnu ar gyfer y modiwl pan fyddwch yn cyflawni'r gofynion pasio.

5. Os ydych chi'n cyflawni marc pasio'r modiwl neu uwch, ni chaniateir i chi gymryd asesiad/au'r modiwl hwnnw eto er mwyn gwella eich marc. Mae hyn yn cynnwys lle rydych wedi methu elfen benodol o asesiad o fewn y modiwl ond wedi pasio'r modiwl yn gyffredinol.

## PCET-E: Methu Modiwl

1. Os nad ydych wedi cyflawni'r gofynion er mwyn pasio modiwl neu fodiwlau, bydd y modiwl/modiwlau'n cael eu methu.

2. Bydd angen delio gyda'r methiant er mwyn i chi gael eich ystyried ar gyfer y dyfarniad.

3. Mae sut y gellir mynd i'r afael â'r methiant yn dibynnu i ba raddau yr ydych wedi bodloni'r deilliannau dysgu gofynnol, a beth mae'r Brifysgol angen i chi ei arddangos er mwyn profi eich bod yn gymwys i dderbyn y dyfarniad.

4. Mae'r adrannau canlynol o'r Rheoliadau hyn yn amlinellu camau gweithredu amgen fydd yn dilyn os ydych yn methu modiwl.

## 5 Ad-daliad

5.1 Os yw eich perfformiad cyffredinol mewn asesiad ar gyfer Lefel rhaglen yn bodloni meini prawf penodol, bydd y Bwrdd Asesu'n gwneud iawn am fethiant. Cyfeiriwch at y Rheoliadau Cyffredinol am fanylion ynghylch ad-daliad.

## 6 Ailsefyll

6.1 Lle nad yw ad-daliad yn gymwys neu lle nad ydych yn bodloni'r meini prawf penodol, bydd y Bwrdd Asesu fel arfer yn caniatáu i chi ailsefyll yr asesiad/au a fethwyd.

6.2 Rhoddir dau gyfle i ailsefyll er mwyn pasio asesiad a fethwyd. Yr unig eithriad i'r sefyllfa hon yw os oes gennych Amgylchiadau Esgusodol sydd wedi'u cymeradwyo (gweler Rheoliad E3).

6.3 Mae gan y Byrddau Asesu'r hawl i ganiatáu i chi ailsefyll ar y cyfle cyntaf posib, a lle nad yw'n effeithio'n negyddol ar eich llwyth gwaith cyffredinol yn y Brifysgol.

6.4 Os ydych yn dewis peidio ag ailsefyll, bydd y cyfle hwnnw yn parhau i gyfrif fel eich un cyfle i ailsefyll. Yr unig eithriad fydd os ydych yn cyflwyno Amgylchiadau Esgusodol, sydd wedyn yn cael eu cymeradwyo gan y Brifysgol.

6.5 Wedi i chi basio'r asesiad ailsefyll, rhoddir y credyd am y modiwl hwnnw i chi a dyfernir marc pasio lleiafswm.

6.6 Bydd dyddiadau ar gyfer ailsefyll (gan gynnwys dyddiadau ailgyflwyno) yn cael eu rhagnodi gan y Brifysgol.

## 7 Tynnu'n ôl o ganlyniad i Fethiant Academaidd

7.1 Bydd y Bwrdd Asesu fel arfer yn tynnu'n ôl eich cofrestriad o'r rhaglen os nad ydych yn gallu pasio eich modiwl/au ailsefyll.

7.2 Os ydych yn astudio ar gwrs Meistr a'ch bod wedi methu â bodloni'r gofyn er mwyn pasio, mae'n bosib y byddwch yn gymwys ar gyfer dyfarniad ymadael os ydych wedi cwblhau'r niferoedd perthnasol o gredydau. Cyhoeddir gwybodaeth bellach yn eich Manyleb Rhaglen.

7.3 Os ydych chi wedi methu â dangos eich bod wedi ymgysylltu a/neu gynnydd boddhaol ar eich rhaglen.

7.4 Os ydych wedi cael eich tynnu'n ôl o raglen oherwydd methiant academaidd neu resymau disgyblu ni chaniateir i chi ail-ymgeisio ar gyfer yr un rhaglen. Bydd unrhyw gais ar gyfer rhaglenni amgen yn cael eu hystyried gan y Tîm Derbyn Canolog mewn ymgynghoriad gyda'r Tîm Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr a'r Arweinydd Rhaglen.

## PCET-E: Dyfarniad Tystysgrif Addysg - Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol (PCET)

1. Bydd y Bwrdd Asesu'n cynnig Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion os ydych wedi pasio'r holl fodiwlau ac wedi cwblhau 120 credyd.

2. Bydd y marc terfynol yn cael ei gyfrifo drwy gymryd y marc cyfartalog a gafwyd ar draws eich modiwlau. Dim ond modiwlau sy'n cael eu hasesu'n rhifyddol fydd yn cyfrif tuag at y marc cyffredinol.

3. Nid yw'r dyfarniad hwn yn cael ei roi mewn dosbarth a bydd marc terfynol o 40% neu fwy yn arwain at lwyddo.

4. Bydd marciau'n cael eu talgrynnu i'r rhif cyflawn agosaf.

## PCET-G: Dyfarnu Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig - Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol (PCET)

1. Bydd y Bwrdd Asesu'n cynnig Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion os ydych wedi pasio'r holl fodiwlau ac wedi cwblhau 120 credyd.

2. Bydd y marc terfynol yn cael ei gyfrifo drwy gymryd y marc cyfartalog a gafwyd ar draws eich modiwlau. Dim ond modiwlau sy'n cael eu hasesu'n rhifyddol fydd yn cyfrif tuag at y marc cyffredinol.

3. Nid yw'r dyfarniad hwn yn cael ei roi mewn dosbarth a bydd marc terfynol o 40% neu fwy yn arwain at lwyddo.

4. Bydd marciau'n cael eu talgrynnu i'r rhif cyflawn agosaf.

## PCET-H: Dyfarnu Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion - Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol (PCET)

1. Bydd y Bwrdd Asesu'n cynnig Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion os ydych wedi pasio'r holl fodiwlau ac wedi cwblhau 120 credyd.

2. Bydd y marc terfynol yn cael ei gyfrifo drwy gymryd y marc cyfartalog a gafwyd ar draws eich modiwlau. Dim ond modiwlau sy'n cael eu hasesu'n rhifyddol fydd yn cyfrif tuag at y marc cyffredinol.

3. Nid yw'r dyfarniad hwn yn cael ei roi mewn dosbarth a bydd marc terfynol o 40% neu fwy yn arwain at lwyddo.

4. Bydd marciau'n cael eu talgrynnu i'r rhif cyflawn agosaf.

## Hygyrchedd

Mae Prifysgol Wrecsam yn ymdrechu i fod yn brifysgol gefnogol wedi'i llywio gan drawma wrth ddylunio a gweithredu ein holl brosesau a gweithdrefnau. Os oes angen addasiadau arnoch i gael mynediad at y ddogfen hon neu os oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar hygyrchedd, geiriad neu unrhyw ran o'r rheoliadau hon, anfonwch e-bost atom ar academicintegrity@wrexham.ac.uk.